Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Adroddiad blynyddol a datganiadau

## Y flwyddyn yn diweddu 31 gorffennaf 2023

# Cynnwys


**Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr** 4

**Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr y Brifysgol** 8

- Presenoldeb Llywodraethwyr 8
- Datganiad am Annibyniaeth Llywodraethwyr 9
- Datganiad Rheoli Gwrthdrawiad Buddiannau 8

**Gweledigaeth a Strategaeth 2025 y Brifysgol** 15

**Adolygiad y flwyddyn dan sylw yn yr adroddiad gan yr Is-Ganghellor** 16

- Uchafbwyntiau cyflawni Gweledigaeth a Strategaeth 2025
  - Addysgu sy’n ysbrydoli 16
  - Ymchwil sy’n hysbysu 16
  - Ymgysylltu sy’n galluogi 17
  - Strwythur sy’n cynnal 18

Y prif risgiau nad ydynt yn ariannol, y mesurau lliniaru a chyfleoedd yn y dyfodol 13

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: gweithio gyda myfyrwyr, staff a phartneriaid allanol 15

Tueddiadau yn y sector 18




Adroddiad Blwyddyn Ariannol 2022/23 27
Gwybodaeth Elusennol a Datganiad Budd y Cyhoedd 38
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad Rheolaeth Fewnol 45
Adroddiadau'r Pwyllgorau
Y Pwyllgor Archwilio 46
Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth 48
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant 50
Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 52
Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol 54
Cydnabyddiaeth Ariannol yr Is-Ganghellor 55
Y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau 57
Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor 58
Y Bwrdd Academaidd 60
Rheoli Risgiau a Rheolaeth Fewnol 62
Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr 66
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 68
Datganiad y Prif Bolisïau Cyfrifyddu 73
Datganiadau Ariannol 81



# Adroddiad cadeirydd y bwrdd llywodraethwyr



**Dr Leigh Griffin**
Chair of the Board of Governors

## Cyflwyniad

Mae fy mlwyddyn academaidd lawn gyntaf fel Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsam wedi atgyfnerthu fy nheimladau o falchder a braint o gael y fath gyfrifoldeb. Mae agwedd mor gadarnhaol a chyfeillgar yn bodoli ar draws holl weithgareddau'r Brifysgol, ynghyd ag ysfa i barhau i dyfu a gwella er budd ein myfyrwyr, ein staff a'r gymuned leol.

Mae Wrecsam yn lle arbennig, sydd newydd ei dynodi'n ddinas ac sy'n meddu ar brifysgol haeddiannol ac yn manteisio ar y diddordeb rhyngwladol sy'n deillio o'r cysylltiadau gyda Hollywood. Fel prifysgol rydym ni'n cyfleu'r neges 'Croeso i Wrecsam' gan gynnig cyfleoedd, cymuned a chyfeillgarwch i fyfyrwyr lleol a myfyrwyr rhyngwladol fel ei gilydd.

Rydym yn angerddol ynghylch Prifysgol Wrecsam fel man sy'n hybu ac yn galluogi cynhwysiant cymdeithasol a dysgu gydol oes, a bydd yr angerdd hwn yn parhau. Rydym yn falch o'r amrywiaeth yma a'n hanes o gynorthwyo myfyrwyr i gynyddu a gwireddu eu huchelgais. P'un ai ydyn nhw'n 18 neu'n 48, rydym ni'n hybu ac yn darparu cyfledd dysgu i bobl leol a'r rhai o fannau pellach ymaith ac rydym ni'n croesawu'r profiadau rydym ni'n eu cynnig i'n gilydd ac yn elwa cymaint ohonynt.

Fel 'sefydliad angor' lleol rydym ni wedi ymrwymo i'n gwaith fel partneriaid dinesig ym Mhartneriaeth Porth Wrecsam, ein gwaith ar ein cenhadaeth ddinesig, ein cyfraniad i Fargen Twf Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a Chynghrair Merswy Dyfrdwy ymhlith eraill. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda, ac yn awddus i lunio cysylltiadau cryfach fyth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Coleg Cambria, Tŷ Pawb, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, diwydiant lleol a chymaint o rai eraill er mwyn gwireddu ein hymrwymiad ar y cyd i wneud Gogledd Ddwyrain Cymru yn ardal wych i weithio, i astudio, i fyw ac i hamddena ynddi.

Fel rhan o'n cefnogaeth i'r gymuned leol roeddwn i wrth fy modd bod yn bresennol yn achlysur lansio Prifysgol y Plant, sy'n ddull cyffrous o gysylltu â phlant lleol a rhoi profiad o ethos

addysg uwch iddynt, gan gyflwyno 'gradd' iddynt am eu llwyddiannau. Rydym ni hefyd yn gwerthfawrogi ein partneriaeth gadarn gyda Theatr Clwyd, sy'n denu amrediad eang o ddoniau amrywiol.

Mae ein cydlyniad fel Prifysgol uchelgeisiol sy'n mynd o nerth i nerth yn cael ei adlewyrchu yn y berthynas wych rhwng Llywodraethwyr, Swyddogion Gweithredol a'r Undeb Myfyrwyr, yr hoffwn ei chanmol a diolch yn fawr iawn iddi. Mae ymrwymiad yr Undeb Myfyrwyr i roi cymorth a chefnogaeth i'r rhai sy'n astudio, yn enwedig yn ystod cyfnod y mae heriau costau byw yn effeithio'n fawr ar lawer, yn parhau i fod yn eithriadol, ac nid oedd yn unrhyw syndod i mi y daeth Undeb Myfyrwyr Wrecsam yn y safle cyntaf o blith holl brifysgolion Cymru am ei gwaith yn cyfleu a chynrychioli llais y myfyrwyr.

## Ein perfformiad yn 2022/23

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarn er gwaethaf pwysau cynyddol ar y sector Prifysgolion, gan ddatgan diffyg yn unig oherwydd oedi wrth werthu darn o dir (mae'r gwerthiant wedi'u gwblhau bellach). Mae ein cronfeydd wrth gefn yn parhau i'n galluogi i fuddsoddi yn ein datblygiadau Campws 2025, ac roedd agoriad ffurfiol y Chwarter Addysg Iechyd ac Arloesi yn 2022/23 yn garreg filltir allweddol yn natblygiad Prifysgol Wrecsam. Mae'r cyfleuster yn denu myfyrwyr o ystod eang o ddisgyblaethau iechyd, yn cynnwys nifer sylweddol o fyfyrwyr nyrsio rhyngwladol. Rydym ni'n gwerthfawrogi ymddiriedaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn y brifysgol ac rydym yn falch o weld ein cyrsiau nyrsio yn cael eu cydnabod fel y rhai gorau yn y Deyrnas Unedig yng nghanlyniadau mwyaf diweddar yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Mae hyn yn adlewyrchu ansawdd y cyrsiau addysgol, ansawdd yr addysgu ac ansawdd y cyfleusterau a gynigir, yn cynnwys y deunyddiau a'r ystafelloedd efelychu.

Roeddem ni wrth ein boddau gyda'n canlyniadau yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr – cawsom ein lefelau uchaf hyd yma o ran 'boddhad gyda'r addysgu' a gyda'r 'asesu ac adborth', gan ddod yn y safle cyntaf yng Nghymru ar gyfer y ddau ac ymhell uwchben lefel cyfartalog y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd roedd y sgorau am y 'cymorth academaidd' yn arwyddocaol o uchel, ac rwy'n falch o fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl staff ardderchog am eu hymroddiad, eu dull cyflwyno a'u gallu i gysylltu mor effeithiol gyda'n myfyrwyr. Daethom yn chweched o blith 128 o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig am ansawdd yr addysgu.

Mae'r tablau cynghrair yn y wasg a'r cyfryngau yn rhoi llawer o bwysau ar swm ac ansawdd ymchwil gan brifysgol, felly rydym ni o dan rywfaint o anfantais gan nad ydym wedi sicrhau Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil hyd yma. Ein bwriad, ar sail tystiolaeth gynyddol o ragoriaeth ym maes ymchwil, fel y dangosir gan ymchwil ar flaen y gad mewn meysydd fel Gwaith a Pholisi Cymdeithasol, Cyfiawnder Troseddol, Peirianneg ac Opteg, yw mynd i'r afael â hyn drwy gais am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil fydd yn golygu mynd trwy broses asesu drwyadl a pharhaus.

Mae nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru gyda ni yn cynyddu'n barhaus trwy dwf yn nifer ein myfyrwyr rhyngwladol. Yn y dyfodol byddwn yn parhau i gynnig cyfuniad o opsiynau addysgol i fyfyrwyr lleol a myfyrwyr rhynglwadol, gan ein bod yn ymwybodol iawn o werth amrywiaeth i'r gymuned a'r economi leol, yn ogystal ag ar draws amgylchedd y Brifysgol ac i'n partneriaid rhyngwladol.

barhaus ac wedi manteisio ar y cyfle i adolygu, a lle bo angen, atgyfnerthu ein hymrwymiad i a thystiolaeth o safonau ansawdd. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ar lefel y Bwrdd – nid yw hyn yn nodwedd ymhob prifysgol, ac mae'n adllewyrchiad o'r sylw ychwanegol rydym yn ei roi ar ansawdd a deilliannau wrth i ni dyfu.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn siomedig (yn hunanol) ac yn falch (yn haeddiannol) o weld ein Dirprwy Is-Ganghellor, Claire Taylor, yn cael ei phenodi yn Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol Marion Plymouth. Byddant yn elwa o'n colled ni, a dymunwn bob llwyddiant i Claire yn y dyfodol. Gwnaeth yr Athro Aulay MacKenzie gymryd cyfrifoldeb fel Dirprwy Is-Ganghellor dros dro nes y byddwn yn penodi'n barhaol.

Rydym ni wedi manteisio ar y cyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid lleol hefyd ynghylch y cynnig i ailenwi ac ailfrandio'r Brifysgol. Roeddem wrth ein boddau gyda'r ymateb cadarnhaol i'r cynigion, ac ers hynny rydym wedi derbyn cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor i newid enw'r Brifysgol - Prifysgol Wrecsam/Wrexham University. Adlewyrchir y teitl dwyieithog yn ein brandio bellach ac mae'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gynyddol i Wrecsam fel lle pwysig. Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn y broses hon am yr ymgysylltu cadarnhaol a'r dull proffesiynol o reoli'r broses. Ochr yn ochr â'r newid hwn rydym wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, gan ymestyn ein portfolios addysgu a dysgu wrth i ni wireddu hyn. Rydym ni'n falch iawn o bwy ydym ni a lle rydym ni ac rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymreig. Nawr rydym ni'n dechrau ar broses i adolygu ac ailbennu ein strategaeth ar gyfer gweddill y ddegawd. Mae ein gwerthoedd yn glir, ond rydym ni angen ystyried datblygiadau diweddar yn lleol ac yn y sector a'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol ac adolygu ein cyfeiriad a'r hyd rydym ni'n awyddus i fod yn adnabyddus amdano, ac yna bennu llwybr clir ar gyfer parhau ein datblygiad strategol.

Wrth siapio ein gweithgareddau a manteisio ar gyfleoedd i wella, diolchwn am waith ein rheoleiddiwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'n partneriaid yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Wrth i gorff newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, afael yn yr awennau rheoleiddio o fis Ebrill 2024, gyda chyfrifoldeb am yr holl addysg bellach ac addysg uwch, edrychwn ymlaen at lunio perthynas gadarnhaol o ymgysylltu a herio adeiladol.

## Aelodaeth y Bwrdd

Rydym ni'n parhau i gael ein gwasanaethu'n dda gan Fwrdd Llywodraethwyr y mae eu cyfuniad o arbenigedd, profiad ac angerdd tuag at Brifysgol Wrecsam yn eithriadol. Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi ffarwelio gyda Judy Owen, Paul McGrady a Jim Barclay fel Llywodraethwyr Annibynnol, David Sprake fel Staff Lywodraethwr a Lauren Hole fel Myfyriwr Lywodraethwr (Llywydd yr Undeb Myfyrwyr). Diolchaf i bob un ohonynt am eu gwasanaeth.

Rwy'n i'n falch o fod wedi medru croesawu Jayne Owen, Fabrizio Trifiro a Will Naylor fel Llywodraethwyr Annibynnol, Sarah Dubberley fel Staff Lywodraethwr a, gydag ethol Amy Anglesea i swydd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, groesawu Maisie Head fel y Myfyriwr Lywodraethwr arall yn rhinwedd ei swydd fel Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr.

## I gloi

Y cyfan sy'n weddill i mi ei wneud yn awr yw diolch i bawb sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Wrecsam am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth yn ystod 2022/23. Nid ydym yn unrhyw beth heboch chi. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Maria Hinfelaar, am arwain y Brifysgol a'i chymorth a'i chefnogaeth bersonol i mi fel Cadeirydd. Diolchaf hefyd i'n Canghellor, Colin Jackson, am ei angerdd heintus a'i ymrwymiad a'i bresenoldeb sylweddol. Hefyd hoffwn ddiolch i Ryan Reynolds a Rob McElhenney am eu cred rhagorol yn Wrecsam fel lle a'u heffaith yn rhoi Wrecsam ar y map. Diolch o galon, hogie!



# Y Bwrdd Llywodraethwyr



## Dr Leigh Griffin

Llywodrraethwr Annibynnol | Penodwyd ymmis Ebrill 2022

Cadeirydd y Bwrdd

Aelod yn rhinwedd ei swydd o'r: Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r



## Paul Barlow

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Rhagfyr 2018

Is-gadeirydd y Bwrdd

Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Aelod o'r: Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



## Professor Sandra Jowett

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Mai 2016

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Cadeirydd y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau



## Judy Owen

Llywodraethwr Annibynnol | mis Mai 2016 – mis Awst 2023

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Cyfarwyddwr Anweithredol Glyndŵr Services Ltd



## David Subacchi

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2016

Is-gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

# Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



**Paul McGrady**
**Llywodraethwr Annibynnol | mis Mai 2016 – mis Awst 2023**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



**Jim Barclay**
**Llywodraethwr Annibynnol | mis Mawrth 2019 – mis Mai 2023**
Cyfarwyddwr Anweithredol Glyndŵr Services Ltd
Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth



**Claire Homard**
**Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Chwefror 2020**
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu



**Richard Thomas**
**Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021**
Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau



**Diane McCarthy**
**Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021**
Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
Is-gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

# Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



### Maureen Wain

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021

Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
a'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau



### Professor Martin Chambers

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2021

Cyfarwyddwr Anweithredol Glyndŵr Innovations Ltd
Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth



### Richard Campbell

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2022

Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg



### Liam Wynne

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2022

Cyfarwyddwr Anweithredol,
Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru



### David Sprake

Etholwyd yn Llywodraethwr sy'n cynrychioli''r Staff Addysgr
| mis Ebrill 2019 – mis Awst 2023

# Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



**Sally Lambah**
Etholwyd yn Llywodraethwr sy'n cynrychioli'r Staff Gwasanaethau Proffesiynol | Penodwyd ym mis Medi 2021



**Dr Karen Heald**
Llywodraethwr a enwebwyd gan y Bwrdd Academaidd | Appointed December 2022



**Amy Anglesea (nee Rowley)**
Myfyriwr Lywodraethwr | Penodwyd ym mis Medi 2021



**Lauren Hole**
Myfiyriwr Lywodraethwr | mis Gorffennaf 2021 – mis Mehefin 2023
Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau.
Arsylwr yn y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth



**Professor Maria Hinfelaar**
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021
Aelod yn rhinwedd ei swydd o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau

# Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



## Maisie Head
Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Mehefin 2023



## Jayne Owen
Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



## Will Naylor
Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023
Is-gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



## Fabrizio Trifiro
Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023
Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd*



## Sarah Dubberley
Elected Teaching Staff Governor | Penodwyd ym mis Medi 2023

*Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn Bwyllgor newydd a sefydlwyd yn ystod 2023/24, gan ddisodli'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau

# Cofnod presenoldeb yng nghyfarfodydd y bwrdd

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb** Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Paul Barlow | 5/5 |
| Jim Barclay | 3/4 |
| Richard Campbell | 5/5 |
| Professor Martin Chambers | 4/5 |
| Dr Leigh Griffin (Chair) | 5/5 |
| Professor Maria Hinfelaar | 5/5 |
| Maisie Head | 1/1 |
| Dr Karen Heald | 3/3 |
| Lauren Hole | 3/4 |
| Claire Homard | 3/5 |
| Professor Sandra Jowett | 4/5 |
| Sally Lambah | 4/5 |
| Diane McCarthy | 5/5 |
| Paul McGrady | 2/5 |
| Judy Owen | 5/5 |
| Amy Anglesea (nee Rowley) | 2/5 |
| David Sprake | 4/5 |
| David Subacchi | 5/5 |
| Richard Thomas | 4/5 |
| Maureen Wain | 4/5 |
| Liam Wynne | 4/5 |

## Annibyniaeth llywodraethwyr

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn nodi bod rhaid i fwyafrif ei aelodaeth fod yn aelodau annibynnol a benodir mewn modd clir a thryloyw. Amlinellir y broses benodi yn adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Argymhellodd Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru (Camm) yn 2019 y dylid pennu lefel uwch o ran annibyniaeth llywodraethwyr nag a oedd yn bodoli ar adeg yr adolygiad, ac y dylai'r materion hynny a allai gyfaddawdu annibyniaeth llywodraethwyr gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chyhoeddi gan brifysgolion yn flynyddol o leiaf.

Datblygwyd canllawiau ynghylch Annibyniaeth Llywodraethwyr ar gyfer Prifysgolion Cymru gan ddefnyddio arferion da llywodraethu yn y sector prifysgolion a'r sector corfforaethol, gyda'r disgwyliad ei fod yn cael ei fabwysiadu gan holl gyrff llywodraethu prifysgolion yng Nghymru. Mae Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsam wedi mabwysiadu'r canllawiau fel set o egwyddorion i gefnogi llywodraethu da.

Llywodraethwyr annibynnol yw'r rhai a benodir gan y Bwrdd nad ydynt yn fyfyriwr cofrestredig nac yn aelod o staff y Brifysgol, nac yn unigolyn o awdurdod lleol etholedig. Mae llywodraethwyr annibynnol yn allweddol i gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn prifysgolion, ac mae Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd yn ystyried annibyniaeth darpar lywodraethwyr yn ystod y broses recriwtio gan ddefnyddio'r canllawiau ynghylch annibyniaeth i gyfeirio ato ac fel sail trafodaeth, a chael datganiad buddiannau a llofnodi datganiad cymhwysedd fel ymddiriedolwr gan bob llywodraethwr.

## Rheoli gwrthdrawiad buddiannau

Unwaith y'i penodir mae'r cyfrifoldeb ar lywodraethwyr i fod yn dryloyw a dangos eu hannibyniaeth a datgan unrhyw wrthdrawiadau gwirioneddol neu unrhyw beth y gellid ei ddirnad fel gwrthdrawiad neu'n meddu ar y potensial i fod yn wrthdrawiad. Fel ymddiriedolwyr elusen mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i lywodraethu er budd gorau'r elusen yn unig, a gall cysylltiadau personol a phroffesiynol, tra'n rhoi manteision i waith y brifysgol, achosi gwrthrawiad buddiannau y mae'n rhaid i lywodraethwyr ymateb iddynt yn effeithiol.

Yn dilyn llenwi ffurflen datgan buddiannau ar adeg ymuno â'r Bwrdd Llywodraethwyr mae'n ofynnol i lywodraethwyr adolygu a diwygio eu datganiad fel bo'n berthnasol, yn flynyddol o leiaf, a hysbysu Clerc y Bwrdd am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n effeithio ar eu datganiad buddiannau. Cyhoeddir rhestr o fuddiannau aelodau ar wefan y Brifysgol. Mae gan y Bwrdd broses hefyd i'r holl lywodraethwyr ddatgan unrhyw fuddiannau'n rhagweithiol ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor o ran unrhyw eitem i'w thrafod yn y cyfarfod.

Lle nodir unrhyw wrthdrawiadau gwirioneddol neu'r hyn y gellid ei ddirnad fel gwrthdrawiad neu â'r potensial i fod yn wrthdrawiad yn ystod trafod busnes y Bwrdd, bydd Cadeirydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor perthnasol yn penderfynu ar y dull gweithredu. Fel isafswm ni chaniateir i'r llywodraethwr gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch yr eitem honno. Cofnodir lefel cyfranogiad y llywodraethwr yng nghofnodion y cyfarfod.

# Gweledigaeth a strategaeth 2025

**Cenhadaeth Prifysgol Wrecsam yn ei Gweledigaeth a Strategaeth 2025 yw ysbrydoli a galluogi trwy gyfrwng addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu, gan weithio gyda'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.**

Ein gwerthoedd yw bod yn:

## Hygyrch

Rydym ni'n eiriolwyr angerddol dros ddysgu gydol oed a chredwn na ddylai cefndir ac amgylchiadau fod yn rhwystr i fanteisio ar addysg uwch. Rydym ni wedi ymrwymo i hygyrchedd, tegwch a bod yn gynhwysol yn y modd rydym ni'n addysgu, yn ymchwilio ac yn darparu ein gwasanaethau ni.

## Cefnogol

Rydym ni'n meithrin amgylchedd cefnogol i annog ein staff a'n myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu nodau dysgu, ymchwil a gyrfa. Rydym ni'n gofalu am ein cymunedau ac yn arwain ac yn cefnogi mentrau'n rhagweithiol er mwyn cyfoethogi'r economi leol a bywydau pobl leol.

## Arloesol

Rydym ni'n gwneud pethau'n wahanol. Rydym ni'n cydnabod bod ein llwyddiant yn dibynnu ar egni, deallusrwydd a chreadigrwydd pawb yng nghymuned y brifysgol yn dod ynghyd. Rydym ni'n annog safbwyntiau newydd ac arloesi wrth addysgu ac ymchwilio ac yn ein hymgysylltu â chymunedau a phartneriaid. Rydym ni'n herio'r status quo ac yn ddigon dewr i groesawu ffyrdd newydd o wneud pethau. Mae hyn yn galluogi ein diwylliant, ein strwythur, ein polisïau a'n pobl i hybu rhagoriaeth ac i ymateb i'r angen yn effeithiol.

## Uchelgeisiol

Rydym ni'n uchelgeisiol ar ran ein staff, ein myfyrwyr a'n cymunedau. Rydym ni'n sylweddoli nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ddysgu a dysg ac rydym ni'n herio pobl i wireddu eu dyheadau a llwyddo trwy gyfrwng addysg.

**Mae cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol yn cael eu mynegi yn ein gweledigaeth sy'n cynnwys pedair elfen: addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n gweddnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal. Mae'r elfennau hyn yn y strategaeth, ar y cyd, yn siapio ein gweledigaeth i fod y dewis leoliad i'n myfyrwyr, ein partneriaid a'n staff.**

Rydym ni'n cynnig:

**Addysgu sy'n ysbrydoli:** galluogi dysgu sy'n ysbrydoli trwy gyfrwng addysgu rhagorol, darparu cyfleoedd i'n myfyrwyr ffynnu fel dinasyddion byd-eang iach, gweithgar a chyfrifol.

**Ymchwil sy'n gweddnewid:** cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd trwy fod yn rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a chywirdeb.

**Ymgysylltu sy'n galluogi:** cyfoethogi'r rhanbarth a thu hwnt; cefnogi a datblygu unigolion, cymunedau, diwylliant a'r gymuned.

**Strrwythur sy'n cynnal:** darparu gwasanaethau a seilwaith gweithredu sy'n cefnogi pob rhan o'r strategaeth; darparu rhagoriaeth trwy gyfrwng pobl, lleoedd ac adnoddau.

Mae amrediad o strategaethau cefnogol dan berchnogaeth adrannau penodol ar draws y brifysgol sy'n deillio o'r weledigaeth a'r strategaeth drosfwaol. Adolygir y strategaethau cefnogol hyn a'u diweddaru yn gyson ar sail rhaglen dreigl.

# Adolygiad y flwyddyn dan sylw yn yr adroddiad gan yr is-ganghellor





**Professor Maria Hinfelaar**
Vice-Chancellor

## Uchafbwyntiau o ran cyflawni ein Gweledigaeth a Strategaeth 2025

Parhaodd y Brifysgol i gyflawni ei bedwar nod strategol, sy'n gysylltiedig â'i gweledigaeth a'i gwerthoedd, yn ystod blwyddyn yr adroddiad. Gwnaed cynnydd arwyddocaol ar draws yr holl feysydd, gydag enghreifftiau niferus o oresgyn targedau a staff a myfyrwyr yn dangos perfformiad ac ymrwymiad o'r radd flaenaf.

## Addysgu sy'n ysbrydoli

Parhaodd y Brifysgol i gyflawni ei rhaglenni yn unol â'r 'Fframwaith Dysgu Gweithredol' sy'n berthnasol i'r portffolio academaidd llawn. Mae'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, cydnabyddiaeth broffesiynol a chyflwyno cynhwysol.

Gweithiodd ein staff academaidd a'n staff gwasanaethau proffesiynol yn galed i gefnogi ein myfyrwyr a sicrhau eu bod yn cael profiad da. Adlewyrchwyd hyn yng nghanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr: 'addysgu ar fy nghwrs' ac 'asesu ac adborth' yn 90% a 87% yn ôl eu trefn, yn y safle cyntaf yng Nghymru ac yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd 'cymorth academaidd' ar 87% yn berfformiad arwyddocaol uwch na'r sector. Rhoddwyd yr Undeb Myfyrwyr yn y safle cyntaf yng Nghymru o ran llais y myfyrwyr am y tro cyntaf yn ei hanes. Roedd y Brifysgol yn y trydydd safle o ran 'boddhad cyffredinol' o blith yr wyth prifysgol yng Nghymru ac yn chweched o blith y 128 prifysgol yn y Deyrnas Unedig yn y Complete Universities Guide am ansawdd yr addysgu.

Roedd cymysgedd y myfyrwyr wedi cofrestru i astudio yn y brifysgol yn dangos darlun cynyddol amrywiol. Arhosodd nifer y myfyrwyr llawn amser o'r Deyrnas Unedig yr un fath, ond bu cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol, gyda thri dyddiad dechrau bob blwyddyn, gan ddod â chyfanswm y cofrestrediadau i 1400 erbyn diwedd y flwyddyn. Tyfodd partneriaethau Addysg Drawswladol a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam Ar-lein (WGU Online) hefyd, gan adeiladu ar y patrwm cynnydd o'r blynyddoedd blaenorol.

Cynigiwyd rhaglen dreigl o sesiynau 'cinio a dysgu' i'r staff, yn cwmpasu y diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu. Cyflwynwyd cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â heriau'n gysylltiedig ag uniondeb acadeimaidd, wedi'u hysbysu gan drafodaethau a mewnweledeither ar lefel y sector. Bu'r Tîm Datblygu Academaidd, sy'n cynnwys staff academaidd a staff proffesiynol, yn llwyfan pwysig, hunangynhaliol, gyda chydweithwyr yn rhannu arferion da ar draws meysydd pwnc a gwasanaethau.

Dechreuodd y brifysgol gyflawni ei chontract 10 mlynedd i gyflwyno addysg Nyrsio ac Iechyd Cysylltiedig yng Ngogledd Cymru yn llwyddiannus, gan ychwanegu dros 1000 o fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig yn ystod y cylch llawn tair blynedd.

Lluniodd y Brifysgol gynllun gweithredu, mewn ymateb i adolygiad allanol, i adolygu a llilinio rheoliadau a phrosesau academaidd, yn cynnwys rhagor o fuddsoddi mewn technoleg a systemau. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu gan hyfforddiant i staff. Y prif flaenoriaeth yw sicrhau taith llyfn i'r myfyrwyr a gwarchod profiad y myfyrwyr ar draws yr holl ddulliau cyflwyno.

## Ymchwil sy'n gweddnewid

Mae strategaeth ymchwil y Brifysgol yn darparu fframwaith strategol i lywio ein cynllunio a'n gweithredoedd. Y Nodau Blaenoriaeth ynddi yw:

1. Sicrhau Pwerau Dyfarnau Graddau Ymchwil. Gwnaed hyn drwy gyflwyno dogfennau i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) a chynnal y set gyntaf o ymweliadau ac arsylwadau gan banel yr Asiantaeth.

2. Datblygu capasiti a gallu ymchwil y brifysgol drwy ddatblygu ei staff. Mae hyn wedi'i gefnogi gan feini prawf recriwtio staff academaidd â chymhwyster lefel doethuriaeth, a bod staff cefnogol i ennill doethuriaeth broffesiynol a pharhau i wneud ymchwil gweithredol. Buddsoddwyd mewn system gwybodaeth ymchwil sy'n cefnogi ceisiadau ymchwil ac sy'n casglu data.

3. Tyfu'r gymuned ymchwil ôl-raddedig. Cefnogwyd hyn gan amrywiaeth o ddigwyddiadau i ymchwilwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa ymchwil, megis 'Tŷ Agored'. Llofnododd y Brifysgol y Concordat Datblygu Ymchwilwyr.

4. Cynyddu nifer y trefniadau cydweithredu ar waith ymchwil academaidd a diwydiannol geithredol. Mae timau'r Swyddfa Ymchwil a'r Swyddfa Fenter yn gweithio'n agos i sicrhau a datblygu prosiectau ymchwil i'r farchnad. Gwnaeth Glyndŵr Innovations Ltd, wedi'i leoli yng nghampws Optic Llanelwy, gwblhau ei brosiect Canolfan Arbenigedd Ffotoneg a gyllidwyd gan WEFO, sy'n cael ei barchu'n fawr gan y diwydiant a'r llywodraeth.

5. Cynyddu'r allbynnau a'r incwm sy'n gysylltiedig ag ymchwil. Mae'r incwm o ymchwil wedi dangos adferiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaeth y cyllid yng nghyswllt allbynnau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ym meysydd Peirianneg, Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol a'r Celfyddydau ddarparu incwm sylfaenol drwy CCAUC, ond gwnaeth cyllid y Cyngor Ymchwil, a ddyfarnwyd ar sail cystadleuaeth, oresgyn hyn yn sylweddol. Enillwyd cyllid gan y Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) ac Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig (UKRI) ar gyfer prosiectau Celfyddydau a Pheirianneg mewn partneriaeth â phrifysgolion eraill cynnwys Caergrawnt, Caerdydd, Bryste a Southampton.

6. Cynyddu gwelededd, effaith a gwerth ein hymchwil. Gyda chymorth y Swyddfa Ymchwil, cynigiwyd cyfres o ddarlithoedd cyhoeddus 'Sgyrsiau Glyndŵr'. Roedd y gyfres yn cynnwys sgyrsiau am bynciau cymdeithasol pwysig fel newid yn y hinsawdd, atebolrwydd yn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a rhaglenni ailsefydlu i gleifion cardiaidd.

## Ymgysylltu sy'n galluogi

Gwnaeth y Brifysgol barhau ei hymgysylltu â diwydiant a'r gymuned.

Darparwyd cyrsiau byr, hyblyg, ar-lein i fusnesau lleol ac unigolion a oedd yn awyddus i feithrin sgiliau newydd. Cynigiwyd gradd-brentisiaethau i gwmnïau ym meysydd Peirianneg a Thechnoleg Gwybodaeth.

Gwnaeth y Swyddfa Fenter ddatblygu'r cysyniad 'Ysgol Arloesi' ymhellach. Gan ddefnyddio cyllid Arloesi Ymchwil Cymru, cynigiwyd talebau Trosglwyddo Gwybodaeth gwerth hyd at £2,500 i fusnesau lleol ar gam cyntaf yr ysgol. Gwnaeth Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth am gyfnod byr o 3 i 6 mis o hyd gynnig gwasanaethau myfyriwr newydd raddio i gwmnïau lleol ynghyd â'r gallu i gael gafael ar arbenigedd academaidd fel fframwaith reoledig hawdd i'w defnyddio. Ar lefel uchaf 'Ysgol Arloesi' y Brifysgol cyflawnwyd Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a phrosiectau CAMPUS wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru ym meysydd technoleg Realiti Rhithwir a cherbydau di-beilot yn yr awyr.

Trwy gyfrwng ein his-gwmni, Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, cynigiodd y ganolfan dysgu am wyddoniaeth, Xplore! brofiadau rhyngweithiol i ddenu pobl ifanc i fyd gwyddoniaeth a thechnoleg. Fel rhan o'n Strategaeth Ymgysylltu Dinesig gwnaethom gynnal Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru i ddatblygu asesiadau llesiant ar ran y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gyflwyno dull system gyfan o ran gweithio â chymunedau. Dyfarnwyd cyllid CCAUC i'r prosiect arloesol Prifysgol y Plant sy'n weithredol ar draws Gogledd Cymru gyda'r nod o gynyddu lefelau dyhead mewn cymunedau anoddach i'w cyrraedd. Roedd Presgripsiynu Cymdeithasol yn faes arall lle gwnaethom ddatblygu ein gwaith gyda phartneriaid rhanbarthol, a llunio cyswllt ymchwil gyda Phrifysgol De Cymru i gasglu tystiolaeth am ei effaith.

Gwnaeth partneriaethau sylweddol yn yr India, Tsieina ac Affrica barhau i lwyddo. Cynorthwyodd y rhain y Brifysgol i gynyddu cofrestriadau myfyrwyr Addysg Trawswladol, a nifer y myfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig sy'n dod i'n campysau yn y Deyrnas Unedig. Busnes, Cyfrifiadureg a Pheirianneg yw'r prif feysydd pwnc sy'n denu myfyrwyr rhyngwladol, gyda Chelf a Dylunio a Seicoleg yn boblogaidd hefyd. Parhaodd llwybrau cydweddu â phartneriaid o'r Undeb Ewropeaidd mewn meysydd Peirianneg arbenigol megis Ynni Adnewyddadwy i ddenu carfanau myfyrwyr maint hyfyw.

Mae'r partneriaethau addysgol allweddol yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys colegau Addysg Bellach Gogledd Cymru, Coleg Bloomsbury yn Llundain a Phrifysgol y Santes Fair Twickenham.

## Strwythur sy'n cynnal

Cynhyrchwyd mwy o refeniw gan y meysydd twf, yn unol â strategaeth arallgyfeirio'r Brifysgol. Cyflwynir y canlyniadau ariannol llawn, a'r nodiadau i gyd-fynd â'r cyfrifon, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Fel rhan o'n uchelgais i fod yn sefydliad carbon isel, gwnaed cynnydd gydag astudiaeth gwres

a gyllidwyd gan Adran Diogeledd Ynni a Sero Net y Deyrnas Unedig. Gwnaeth £750k o gyllid cyfalaf gan CCAUC alluogi gweddnewid y labordai Gwyddoniaeth ar goridor C. Gwnaeth cyllid gan CCAUC alluogi rhoi mwy o gymorth i fyfyrwyr hefyd, ym maes iechyd meddwl a llesiant, er enghraifft. Cynorthwyodd yr ymyriadau hyn i greu amgylchedd dysgu cynaliadwy gydag adnoddau niferus.

Dechreuwyd ar brosiectau cyfalaf mawr fel rhan o'n Cynllun Meistr ar gyfer y campws gwerth £80m. Cyflawnwyd rhan gyntaf y Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd gan weithio gyda'r contractwr Spatial Environments. Roedd yn cynnwys nifer o ystafelloedd efelychu clinigol yn yr adeilad ble'r arferai Techniquest fod, a gafodd ei uwchraddio yn dilyn adleoli'r Ganolfan Canfod Gwyddoniaeth, Xplore! i ganol dinas Wrecsam. Dechreuodd ail ran y prosiect Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd gyda gwaith gwacau a pharatoi.

Penodwyd cwmni Wynne Construction i weithio ar y brîff, y dyluniad a chostau'r Labordy Peirianneg newydd gwerth £12m ar y prif gampws a gwaith Mecanyddol a Pheirianneg yng Nghanolfan Optic, Llanelwy, wedi'i gyllido gan Fargen Twf Gogledd Cymru. Datblygodd y brifysgol gynlluniau i greu'r Academi Arloesi Seiber, mewn partneriaeth â Seiber Cymru, i'w leoli mewn adeilad nad yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial ar y prif gampws. Bydd hyn yn cynnig cyfleusterau penodol fel Ystafell Ddianc Seiber i fyfyrwyr Cyfrifadureg a sefydliadau lleol at ddibenion hyfforddiant.

Cynhaliodd y brifysgol ei arolwg annibynnol ymgysylltu â staff a gynhelir bob dwy flynedd. Cafwyd cyfradd ymateb o 63%, a chafwyd canlyniadau calonogol mewn meysydd fel 'Arwain ac Ysbrydoli Pobl a 'Gwerthoedd y Brifysgol', gyda mwyafrif health y staff yn nodi eu bod yn deall ac yn cefnogi strategaeth ac amcanion y brifysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu swydd. Fodd bynnag, wrth feincnodi hyn yn erbyn sefydliadau cymharol, daeth i'r amlwg nad oedd y staff yn teimlo'n ddigon ymwybodol o waith a wneir gan adrannau eraill a bod angen gwella'r cymorth technegol a gynigir.

Penodwyd amrediad o staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol newydd i gefnogi'r meysydd twf, er enghraifft, Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Cysylltiedig, y Swyddfa Rhyngwladol a'r Swyddfa Ymchwil.

## Y prif risgiau nad ydynt yn rhai ariannol a'r mesurau lliniaru

Mae'r Brifysgol yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cyfeirio at bedair elfen y strategaeth. Yn ychwanegol mae pumed categori yn edrych ar ddatblygiadau allanol a'u heffaith uniongyrchol ar y brifysgol. Yn gyffredinol roedd y Map Gwres Risgiau ar gyfer y Brifysgol yn dangos nifer uwch o feysydd wedi'u cyflwyno fel rhai 'melyn' a 'choch' na'r flwyddyn flaenorol, o gofio'r cynnydd yn yr ansicrwydd a'r heriau yn yr amgylchedd gweithredu a chyflymder y newid yn fewnol. Cynhelir y gofrestr risgiau gan Fwrdd yr Is-Ganghellor ac mae Pwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd yn craffu ar y gofrestr o dro i dro. O ran yr elfen gyntaf, Addysgu sy'n Ysbrydoli, nodwyd risgiau ym meysydd cynllunio academaidd, arallgyfeirio'r portffolio, dylunio rhaglenni, darparu rhaglenni a chadw trosolwg.

Yn benodol, pwysau ar adnoddau a phrofiad y myfyrwyr a achoswyd gan garfanau bach yn dilyn rhai rhaglenni ar yr un llaw a charfanau fyfyrwyr rhyngwladol yn tyfu'n gyflym ar ystod gul o raglenni ar y llaw arall a oedd

angen eu rheoli. Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys adolygu'r portffolio a'r llwybrau dysgu yn barhaus, gweithredu egwyddorion y Fframwaith Dysgu Gweithredol yn llawn a gwreiddio nodweddion Graddedigion Wrecsam yn y cwricwlwm. Datblygodd y brifysgol gynlluniau i ddiweddaru'r rheoliadau academaidd, mewn ymateb i adolygiad allanol, i sicrhau y byddai'r rhain yn parhau yn addas i'w pwrpas yng nghyd-destun cymysgedd mwy amrywiol a chymhleth yn yr unigolion sy'n cofrestru ac anghenion myfyrwyr yn newid. Gwnaeth newidiadau yn y patrymau recriwtio myfyrwyr is-raddedig a achoswyd gan bandemig COVID-19 ac ymddygiad ein cystadleuwyr barhau i greu risg mawr i'r Brifysgol hefyd, er gwaethaf cynnydd yn y ceisiadau UCAS ar gyfer y rhaglenni gofal iechyd.

Cafodd strategaethau marchnata a recriwtio eu diweddaru mewn ymateb i hyn, yn cynnwys newid enw'r brifysgol o Brifysgol Glyndŵr i Brifysgol Wrecsam fel teitl mwy effeithiol, yn dilyn proses ymgynghori gynhwysfawr a derbyn cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor. Ehangwyd y portffolio o raglenni hyblyg a addysgwyd ar-lein i fyfyrwyr ôl-raddedig hefyd, ynghyd ag ehangu'r cyfleoedd ôl-raddedig a addysgir ar y campws.

Yn achos yr ail elfen, Ymchwil sy'n Gweddnewid, y prif risgiau a nodwyd oedd methiant i dyfu'r sail ymchwil a bod yn aflwyddiannus o ran cael Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil, a fyddai'n gwanhau enw da academaidd y Brifysgol a chyfyngu ar ein gallu i gynnig cyfleoedd ymchwil ôl-raddedig oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynir gan y brifysgol partner sy'n dilysu. Yn ychwanegol, roedd ansicrwydd ynghylch effaith cyllido ansawdd adolygiad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a gwblhawyd yn 2022 a arweiniodd at leihad yn yr unedau asesu gan y Brifysgol fu'n cyfranogi yn y broses. Lliniarwyd y risgiau hyn drwy sicrhau bod y dogfennau a gyflwynwyd i gael Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil yn darparu tystiolaeth glir o fodloni'r meini prawf a chadw'r metrics yn gyfredol.

Gwnaeth ymgysylltu â Phanel Adolygu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch flaenoriaethu ymateb amserol i unrhyw geisiadau am ragor o ddogfennau tystiolaeth a hwyluso arsylwi cyfarfodydd gan aelodau'r panel. Roedd y polisïau a'r prosesau Adnoddau Dynol yn parhau i annog staff academaidd i gyflawni ymchwil gweithredol, a buddsoddodd y Brifysgol mewn mwy o gymorth llunio ceisiadau a System Gwybodaeth Ymchwil newydd. Deilliodd canlyniadau cadarnhaol o'r buddsoddiadau hyn, yn cynnwys dyfarniadau cyllido cystadleuol gan Ymchwil ac Arloesi yn y Deyrnas Unedig (UKRI) a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).

Cryfhawyd y cysylltiadau rhwng y Swyddfa Ymchwil a'r Cyfadrannau, yn ogystal â gwasanaethau proffesiynol allweddol fel Marchnata a Chyllid. Cytunwyd ar fodel mewnol newydd i ddyrannu cyllid Ymchwil o Ansawdd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, fel y byddai mwy o feysydd pwnc yn barod i'w cyflwyno dan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028. Datryswyd y problemau storio data ymchwil.

O ran y drydedd elfen, Ymgysylltu sy'n Galluogi, cafodd risgiau eu monitro o ran partneriaethau academaidd a phroffil menter y brifysgol. Yn benodol, nodwyd methu â chyrraedd y targedau recriwtio myfyrwyr a'r targedau incwm neu fethiannau mawr gan bartneriaid academaidd yn arwain at effaith negyddol ar enw'r da'r brifysgol fel y prif risgiau. Mewn ymateb i adolygiad allanol, derbyniwyd yr argymhellion i ddatblygu diffiniadau risg manylach ar y cam

diwydrwydd dyladwy a sefydlu gwahaniaethu cliriach rhwng y Swyddfa Bartneriaethau a'r Swyddfa Ansawdd. Roedd y mesurau lliniaru yn cynnwys prosesau cadarn i graffu ar bartneriaid, gydag adroddiadau clir i'r uwch reolwyr a'r Bwrdd Academaidd, dan arweiniad y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd wedi'i gadeirio gan un o'r uwch academyddion.

Roedd cynlluniau ehangu wedi'u rheoli yn bodoli, yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ar y cam caffael a'r cam dilysu'r rhaglen a dadansoddi'r farchnad i sicrhau hyfywedd ac addasrwydd partneriaethau rhyngwladol penodol. Cafodd y Bwrdd Llywodraethwyr ei friffio'n rheolaidd ar ddatblygiad partneriaethau academaidd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar sut y cynhelir safonau ac ansawdd. Comisiynwyd archwilwyr y Brifysgol, RMS, i adolygu'r fframwaith llywodraethu ansawdd a monitro darpariaeth gan bartneriaid a daeth i'r casgliad y gall y Bwrdd Llywodraethwyr gymryd sicrwydd sylweddol fod y mesurau rheoli yn y maes hwn wedi'u dylunio'n addas a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Yn ychwanegol, cymrodd y Brifysgol ran mewn adolygiadau ar lefel y sector gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ym maes Addysg Trawswladol a chydnabuwyd ei harferion da. Rhoddwyd sylfaen gadarn i'r proffil menter drwy ddull rhagweithiol o sefydlu partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth wedi'u cyllido gydag amrywiol fusnesau yn y rhanbarth. Gwnaeth y risg o fethu â chyrraedd targedau ar gyfer darpariaeth rhan amser wedi'i chyllido yng Nghymru barhau'n heriol, ond cafodd ei liniaru'n rhannol drwy ddiwygio'r cyrsiau a gynigiwyd a datblygu gradd-brentisiaethau a oedd yn cynnig dewis amgen, yn aml gyda'r un cyflogwyr rhanbarthol a gofrestrodd staff ar gyrsiau gradd rhan amser yn y gorffennol.

Yn achos y bedwaredd elfen, Strwythur sy'n Cynnal, risg allweddol oedd cynnydd yn y costau gweithredol oherwydd chwyddiant uchel yn uwch na'r twf yn yr incwm, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau ffioedd dysgu is-raddedigion heb newid. Cynyddodd y risg hwn o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd y gromlin serth yn y gyfradd chwyddiant yn y Deyrnas Unedig, a gwaethygwyd hyn ymhellach gan sefyllfa a oedd yn dirywio o ran cadw myfyrwyr is-raddedig y Deyrnas Unedig yn dilyn Covid. Hefyd roedd ansicrwydd ynghylch perfformiad is-gwmnÏau'r Brifysgol a allai niweidio perfformiad y Grŵp, felly cafodd hyn ei fonitro'n ofalus.

Er bod sefyllfa arian parod y Brifysgol yn iach ac nid oedd yn dibynnu ar fenthyca gan sefydliadau ariannol, roedd risg y gellid cael effaith negyddol ar y gofynion benthyca yn y dyfodol i ariannu camau olaf y rhaglen Campws 2025 petai unrhyw amheuon am allu'r Brifysgol i gydymffurfio â'i gyfamodau bancio gyda chysondeb. Y prif fesurau lliniaru oedd arallgyfeirio'r incwm o ffioedd dysgu, lleihau dibyniaeth y Brifysgol ar farchnad is-raddedigion o'r Deyrnas Unedig drwy gynnydd arwyddocaol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a gofrestrwyd, cynyddu'r Addysg Drawswladol a gwella'r incwm ymchwil. Cryfhawyd y buddsoddi mewn recriwtio myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig hefyd.

Ar yr ochr costau cyflogau, cafodd costau eu rheoli trwy fframwaith rheoli swyddi gwag yn ganolog a gynorthwyodd i adnabod arbedion ac i sicrhau bod capasiti priodol yn y sefydliad i ddarparu'r portffolio wedi'i arallgyfeirio. Cafodd costau cynyddol nad oeddynt yn gysylltiedig â chyflogau eu lliniaru i raddau trwy ddefnyddio cyllid a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gan CCAUC yn erbyn gwariant ar y

seilwaith digidol a chynnal a chadw'r ystad ac ailfuddsoddi cronfeydd wrth gefn y Brifysgol a gynhyrchodd incwm llog. Roedd buddsoddi annigonol yn yr amgylchedd dysgu ffisegol a digidol, a pheidio â bodloni disgwyliadau staff a myfyrwyr drwy hynny, a bod yn agored i ymosodiadau seiber ddiogelwch, yn cynrychioli risgiau ychwanegol. Roedd y mesurau lliniaru dan strategaeth Campws 2025 y Brifysgol yn cynnwys cyd-fynd clir rhwng datblygiadau cyfalaf a'r weledigaeth yn ogystal â gofynion ymarferol addysgu a dysgu, wedi'u goruchwylio gan fyrddau prosiect penodol. Roedd gwaredu darbodus safleoedd ac ailfuddsoddi'r derbynion cyfalaf wrth graidd strategaeth Campws 2025, yn gysylltiedig â strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol.

Mae adran olaf cofrestr risgiau'r Brifysgol yn ystyried ei sefyllfa gydag amrediad eang o gyrff rheoleiddio a statudol, yng nghyd-destun amgylchedd polisi sy'n esblygu. O gofio bod maint a siâp y brifysgol yn newid oherwydd ei strategaeth arallgyfeirio, sydd ynddo'i hun yn creu lefelau cydnerthedd ariannol uwch, gallai hyn effeithio ar yr ymgysylltu â chyrff rheoleiddio wrth iddynt weld y Brifysgol yn newid yn gyflym. Mae risg o ansawdd data gwael ac felly beidio â sylwi ar danberfformio mewn meysydd darpariaeth academaidd penodol mewn modd amserol. Mae her gysylltiedig o adrodd am ddata yn ystod y flwyddyn oherwydd y dyddiadau derbyn lluosog a gynigir mewn ffrydiau amrywiol. Gallai asiantaethau statudol gryfhau'r gofynion adrodd sydd felly'n cynyddu'r baich biwrocrataidd ac mae'n creu risgiau methu ychwanegol. Mae hyn yn cael ei liniaru drwy ddarparu tryloywder a sicrhau cydymffurfio â gofynion o'r fath, mewn dialog gyda'r asiantaethau dan sylw a gan fanteisio ar gyngor cyrff ymbarel sy'n cynrychioli'r sector. Mae baich cydymffurfio arwyddocaol ar y sector Addysg Uwch yn gyffredinol, sy'n rhoi pwysau adnoddau sylweddol ar adrannau penodol a'u staff a gallai hyn gael ei ddirnad fel pwysau sy'n tynnu oddi wrth gwasanaethau mwy sylfaenol i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, amcan allweddol i'r Brifysgol yw gwella arferion a phrosesau yn barhaus a dangos atebolrwydd a thryloywder, a thrwy hynny geisio ychwanegu gwerth o reoli'r baich cydymffurfio. Mae cyflwyno systemau a phrosesau technegol wedi'u llinlinio, yn ogystal â hyfforddi staff, yn alluogwyr pwysig er mwyn cyflawni hyn.

Cafodd gweledigaeth a strategaeth y br
ei chyflawni'n gyffredinol yn unol â'r cynllun a nodwyd, a chafodd y risgiau eu rheoli'n briodol, gan sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y brifysgol fel y gall barhau i chwarae ei rhan yn y gymuned.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r adran hon yn edrych ar dri grŵp penodol o randdeiliaid, yn unol â Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y brifysgol a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm a'r Adolygiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar ran yr wyth prifysgol yng Nghymru, a gefnogwyd gan CCAUC fel y rheoleiddiwr. Ar sail argymhellion cytunedig mae'r grwpiau rhanddeiliaid wedi'u categoreiddio fel: myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol

Myfyrwyr yw prif randdeiliaid y brifysgol. Yr Undeb Myfyrwyr yw'r corff sy'n cynrychioli'r myfyrwyr sy'n gweithredu'n annibynnol gyda'i Gyfansoddiad ei hun a gymeradwywyd gan ei Fwrdd Ymddiriedolwyr a gan Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol. Mae gan Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam aelodaeth ex officio ar dri chorff gwneud penderfyniadau allweddol y Brifysgol: y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-Ganghellor. Mae llais y myfyrwyr yn cael ei gynrychioli ar lefel Cyfadran a Thîm Rhaglen hefyd.

yn ymateb i'r adroddiad yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd Llywodraethwyr. Yn 2022/23 gwnaeth yr Undeb Myfyrwyr gynnwys ei Adroddiad Effaith mewn Adroddiad Ansawdd Blynyddol ehangach. Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi cyflwyniad i Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam a'r gwasanaethau a ddarperir, y strwythur staffio ac amlinelliad y cytundebau sy'n bodoli rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y cytundeb perthynas, a adolygir yn flynyddol, sy'n anelu i ddarparu cyfeirnod clir i'r ddau sefydliad a'r egwyddorion sy'n llywio eu gweithrediadau. Roedd yr Adroddiad hefyd yn cyflwyno blaenoriaethau'r swyddogion ar gyfer 2023/24, yn dilyn ethol y Llywydd newydd a'i Is-lywydd newydd yn ystod mis Ebrill/Mai.

Mae'r Adroddiad Effaith yn nodi, dan y pennawd "Gyda'n Gilydd gwnaethom Newid," nifer o gamau gweithredu gan y Brifysgol mewn ymateb i adborth:

- Cyflwynwyd proses farcio a chymedroli newydd gydag adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i gyflymu'r cyfnod marcio.
- Mannau gwefru cerbydau trydan y gall myfyrwyr eu defnyddio.
- Cyflwyno 'pryd bargen y dydd' a bar salad yn y ffreutur.
- Dŵr poeth am ddim ar gael i'r myfyrwyr.
- Ystafelloedd astudio ar gael i'r myfyrwyr eu bwcio ar gyfer astudio.
- Cyflwyno mannau Wi-Fi newydd ar draws y campws.
- Cyfleusterau cegin newydd yng nghampws Llaneurgain i'r myfyrwyr eu defnyddio.

Mae'r Undeb Myfryrwyr yn defnyddio Unitu fel llwyfan technolegol i roi adborth ar unrhyw faterion y gall staff perthnasol ymateb iddynt, yn amrywio o'r timau rhaglenni academaidd i'r gwasanaethau proffesiynol. Nodwyd ansawdd y Wi-Fi ar y campws fel maes allweddol i'w wella gan fyfyrwyr ac adlewyrchwyd hyn gan adborth gan y staff, felly ymrwymodd y Brifysgol adnoddau ychwanegol tuag at wella'r sefyllfa.

Gwelodd yr Undeb Myfyrwyr adferiad cryf yn nifer y clybiau a'r cymdeithasau yn ystod 2022/23, a groesawyd gan y Brifysgol. Cynyddwyd y gweithgareddau i gynnwys myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr partneriaeth yn fwy effeithiol, megis mwy o gyfleusterau chwaraeon, digwyddiadau amlddiwylliannol a chryfhau llais y myfyrwyr. Gweithiodd Canolfan Gyngor yr Undeb Myfyrwyr yn agos â'r adrannau Gwasanaethau i Fyfyrwyr a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, gan gyfeirio myfyrwyr at gymorth priodol. Llwyddodd yr Undeb Myfyrwyr i sicrhau canlyniadau rhagorol yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2023, wedi'i gydnabod fel y gorau yng Nghymru ac yn uwch na meincnodau'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf yn ei hanes.

Bob blwyddyn mae'r Undeb Myfyrwyr yn cynnig ei chyllideb arfaethedig i Bwyllgor Cyllid a Strategaeth y Bwrdd Llywodraethwyr. Fel rhan o broses pennu cyllideb y Brifysgol yn ei chyfanrwydd, cytunwyd ar y grant bloc i'r Undeb Myfyrwyr yn 2023/24 ar £485K, wedi'i gynyddu o £400K y flwyddyn flaenorol, yn cynrychioli cynnydd o 21%. Y rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd uwch na chwyddiant hwn oedd y cynnydd yn nifer cofrestriadau'r brifysgol, yr amrywiaeth cynyddol ymhlith y myfyrwyr ac felly bod angen i'r Undeb Myfyrwyr ymateb i hynny. Mae staff y Brifysgol yn galluogi gwireddu gweledigaeth a strategaeth y brifysgol a gwnaethant gyfraniadau anhygoel unwaith eto eleni. Mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â staff trwy ystod o fecanweithiau, yn cynnwys grwpiau ffocws, cyrff cynrychiolwyr y staff, cynadleddau a gweithdai.

Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd datblygu staff bob blwyddyn ar lefel y brifysgol gyfan neu lefel adran leol yn ogystal â hyfforddiant allanol. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhannu'n dri phrif faes: hyfforddiant gorfodol fel iechyd

a diogelwch a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; ymchwil a datblygiad academaidd, cefnogi staff sy'n cwblhau eu Doethuriaeth neu eu Tystysgrif Ôl-raddedig Addysgu a Dysgu ym maes Addysg Uwch a rhannu arferion da drwy cynadleddau staff a digwyddiadadu rhwydweithio.

Mae gan y Brifysgol Dîm Datblygu Academaidd gwirfoddol sy'n ffynnu, sy'n dod â phrif academyddion a gweithwyr proffesiynol mewn meysydd fel dysgu digidol, i gefnogi datblygiad addysgu a dysgu ar draws sefydliadau mewn modd sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol. Roedd y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial a'i oblygiadau; Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac arferion da wrth addysgu a defnyddio dulliau dysgu hybrid a hyblyg. Cydnabuwyd rhwydwaith y Tîm Datblygiad Academaidd fel un sy'n arwain y sector gan Advance HE drwy ei gynllun Dyfarniad Cydweithredol am Ragoriaeth mewn Addysgu.

Fel rhan o ymrwymiad gan sector Prifysgolion Cymru, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru trwy CCAUC, dechreuodd y Brifysgol ar broses i ennill cydnabyddiaeth y Siarter Cydraddoldeb Hil. Trefnwyd ystod o ddigwyddiadau hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth, wedi'u cefnogi gan waith grŵp llywio mewnol a grŵp cynghori. Yn ychwanegol, gwnaeth y tîm Adnoddau Dynol drefnu rhaglen dreigl o weihgareddau iechyd a llesiant, megis sesiynau ar-lein yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl a chwrs modiwlaidd Ymwybyddiaeth Ofalgar i ymdrin â Straen.

Mae'r Strategaeth Pobl yn cyd-fynd â gwerthoedd trosfwaol y Brifysgol ac wedi'i seilio ar y geiriau allweddol 'Denu, Datblygu, Ymgysylltu a Chadw'. Mae ansawdd ein hymgysylltu â staff yn cael ei fonitro bob dwy flynedd drwy gyfrwng arolwg a thrafodir y canlyniadau mewn grwpiau ffocws staff i benderfynu sut i wneud gwelliannau.

Mae'r cwestiynau yn yr arolwg yn holi am farn pobl am sut maent yn cael eu harwain, eu hysbrydoli a'u grymuso; sut mae eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i wobrwyo; pa mor dda mae'r Brifysgol yn cyfathrebu a phu'n ai yw pobl yn fodlon â'r amodau gwaith ai peidio. Mae data'r arolwg yn cael ei ddadansoddi a'i feincnodi gan sefydliad allanol annibynnol. Yn ystod yr arolwg diwethaf yn 2022/23, perfformiodd y brifysgol ar y lefel meincnodii neu'n uwch na'r lefel meincnodi o ran mwyafrif helaeth y meysydd, gyda'r sgorau uchaf ym maes gwerthoedd y Brifysgol (5-15% yn uwch na chyfartaledd y sector) a sut mae'r Brifysgol yn meithrin gallu drwy hyfforddiant a chyfleoedd gyrfa (6-12% yn uwch na'r meincnod).

Roedd meysydd amodau gwaith, offer technegol a chyfleusterau cymdeithasol i staff ar y campws angen eu gwella o'u cymharu gyda'r meincnod (-17 i -28% yn is). Fodd bynnag, gwnaeth y boddhad cyffredinol gyda'r Brifysgol fel gweithle barhau ymhell yn uwch na'r meincnod ar +18%.

Mae partneriaid allanol yn hanfodol i sicrhau perthnasedd a gwireddu gwerth y Brifysgol yn hybu'r economi a llwyddiannau cymdeithasol a diwylliannol y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol genhadaeth ddinesig gref, ac mae'n gwneud gwaith trawstoriadol gweddnewidiol ag awdurdodau lleol, cyrff iechyd ac addysgwyr eraill yn y rhanbarth.

Mae hyn yn gosod y Brifysgol fel un o'r 'Arweinyddion Lle' yn ein cymuned, yn ehangu ein partneriaethau, yn sylfaen i fudd cymdeithasol ac yn darparu cyfleoedd dinasyddiaeth weithgar i staff a myfyrwyr sy'n cael effaith go iawn. Yn ystod y flwyddyn dan sylw cynhaliodd y Brifysgol weithdai cyhoeddus dan arweiniad siaradwyr blaenllaw ar bynciau ymgysylltu dinesig megis sut i rannu mewnwelediadau yn deillio o ddata iechyd

cyhoeddus yn effeitihol.

Fel aelod allweddol o Bartneriaeth Porth Wrecsam parhaodd y Brifysgol i chwarae rhan bwysig yn siapio'r cynlluniau ar gyfer ailddatblygu ardal Ffordd yr Wyddgrug, lle mae'r prif gampws, nesaf at gyfleuster stadiwm pel-droed sy'n gartrefi i glwb pel-droed Wrecsam a chanolfan gludiant, gan ennill ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi'n sylweddol yn adfywio'r ardal ac ymchwilio i ffyrdd eraill i ddatgloi cyfleoedd cyllido fel prosiectau adnewyddu dan raglen Bargen Twf Gogledd Cymru.

Roedd y llwyfannau a rhwydweithiau rhanbarthol eraill y bu'r Brifysgol yn cyfrannu atynt ac y bu'n elwa ohonynt yn cynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol; Grŵp Arweinyddion Dinesig Wrecsam; Cynghrair Merswy Dyfrdwy; Tŷ Pawb; Swyddogion Busnes Proffesiynol Wrecsam a'r Siambr Fasnach Bu rhwydweithio â llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar sawl lefel, yn cynnwys deialog ag Aelodau Senedd y Deyrnas Unedig, Aelodau Senedd Cymru ac uwch weision sifil. Roedd y pynciau'n cynnwys cynlluniau datblygu cyfalaf y Brifysgol, lles myfyrwyr a newidiadau i'r portffolio academaidd. Parhaodd y Brifysgol iweithio ar gam caffael y Ganolfan Fenter Peirianneg ac Opteg gan ddefnyddio cyllid y Fargen Twf, a fydd yn dod yn ased pwysig i'r Brifysgol ac i'r sail diwydiant lleol.

Cynhaliwyd rhyngweithio ar lefel rhaglenni academaidd a gwasanaethau proffesiynol trwy gydol y flwyddyn, yn canolbwyntio ar yr anghenion sgiliau, datblygu'r cwricwlwm, cyfleoedd ymchwil a chyflogadwyedd graddedigion. Roedd sgôp yr ymgysylltu yn cynnwys cyflogwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, llwyfannau cymunedol a chyrff proffesiynol.

## Tueddiadau yn y sector

Roedd ystod o dueddiadau a phryderon yn effeithio ar y sector a oedd yn cael eu trafod yn rheolaidd yn fewnol a chyda cyrff y sector.

Roedd polisïau Addysg Uwch ar draws y Deyrnas Unedig yn amrywio'n gynyddol, er bod y sector ei hun angen bod yn gydlynus er mwyn cyfathrebu negeseuon clir a chyson i'r gymuned ehangach ac i fyfyrwyr rhyngwladol ynghylch yr hyn y gall ei gynnig. Mabwysiadwyd dulliau sylfaenol wahanol o ran sicrwydd ansawdd a chyfoethogi, gyda diflaniad adolygiadau cylchol sefydliadau yn Lloegr tra bo'r rhain yn cael eu cadw yng Nghymru a'r Alban.

Ystyrir cylchoedd adolygu o'r fath yn hanfodol mewn gwledydd cymheiriaid, felly roedd pryderon yn ymddangos ynghylch effaith ar enw da yn sgil rhoi'r gorau i'r arfer hon ar y sector yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd er nad oedd y newidiadau hyn yn berthnasol i'r gwledydd datganoledig. Roedd rhethreg negyddol am y gwerth a geir gan brifysgolion yn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig, ond nid oedd hyn yn amlwg yng Nghymru, lle mae'r berthynas rhwng Addysg Uwch a'r arweinyddiaeth wleidyddol yn tueddu bod yn fwy adeiladol ac mae'r cyfryngau yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau a wneir gan addysg uwch ac ymchwil i'r economi ehangach ac i'r gymuned.

Gwnaed cyhoeddiadau gwleidyddol y byddai lefelau ffioedd dysgu yn cael eu rhewi yn Lloegr tan 2026/27, a thybiwyd ei bod yn debygol y byddai'r un peth yn digwydd yng Nghymru. Nid oedd effaith newidiadau polisi eraill yn Lloegr yn glir eto, ond rhagwelwyd y gallai rhai o'r rhain gael effaith negyddol ar ehangu cyfranogi mewn addysg uwch. Er enghraifft, byddai lleihau cyllido rhaglenni blwyddyn sylfaen yn cael effaith anghyfrannol ar fyfyrwyr â phroffilau llai traddodiadol a oedd yn ystyried Addysg Uwch. Bu'r Brifysgol yn monitro'r datblygiadau hyn yn ofalus



oherwydd ei hagosrwydd at y ffin â Lloegr a sut yr adlewyrchir nemograffeg y myfyrwyr. Gwnaeth y rhaglen symudedd myfyrwyr a staff Cymru, Taith, gynnig cyfleoedd newydd unigryw i Gymru, gyda'r Brifysgol yn llwyddiannus yn ei chais am gyllid.

Fodd bynnag, y prif bryder a gynyddodd mewn pwysigrwydd yn gyflym yn ystod 2022/23 oedd effaith chwyddiant yn cynyddu'n gyflym a phwysau costau byw anghynaliadwy, a deimlwyd i'r byw gan fyfyrwyr, staff a'r sefydliad fel ei gilydd. Roedd y rhagolygon i raddedigion yn parhau'n ddisglair, ac adroddwyd am gyfraddau cyflogaeth iach. Ar y cyd â gweddill y sector, gwelodd y Brifysgol fwy o alw am wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, yn enwedig yn maes iechyd meddwl a llesiant. Roedd dibyniaeth gynyddol ar incwm ffioedd dysgu gan fyfywyr rhyngwladol ar draws llawer o brifysgolion, a rhagfynegwyd y byddai hyn yn cynyddu, o gofio bod gwerth yr incwm ffioedd dysgu domestig yn lleihau. Comisiynodd Prifysgolion y DU astudiaeth i ddadansoddi effaith potensial y pwysau cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cyflwynwyd deddfwriaeth yn y Senedd i greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a fyddai'n weithredol erbyn 2024. Bydd hwn yn gweddnewid y tirwedd rheoleiddio trwy ddod â'r holl sector addysg ôl-orfodol ynghyd. Fel aelod o Brifysgolion Cymru sy'n cynrychioli'r sector bu'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid cael pontio trefnus wrth sefydlu'r rheoleiddiwr newydd. Pynciau amlwg eraill ar lefel y sector oedd sut i oresgyn yr her o symud i sefyllfa carbon sero net, gweithredu'r argymhellion effeithiolrwydd llywodraethu a wnaed yn Adolygiad Camm ac ymateb i geisiadau cyllido lle'r oedd angen cydweithredu rhwng sefydliadau, megis trwy gyfrwng Rhwydwaith Arloesi Cymru a'r Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu. Roedd y trafodaethau hyn yn gynhyrchiol, gan arwain at ffrydiau cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer mentrau a fyddai o fudd i fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill.

# Adroddiad y flwyddyn ariannol 2022/23 adolygiad gweithredol ac ariannol

## Sefyllfa ddechreuol anodd wedi'i rheoli i gyrraedd deilliant derbyniol

Gwelodd blwyddyn ariannol 2022/23 y Brifysgol yn wynebu'r her anodd o orfod rheoli nifer llai o fyfyrwyr yn cofrestru o'i gymharu â'r amcangyfrifon dechreuol a niferoedd y myfyrwyr is-raddedig llawn amser a rhan amser a'r myfyrwyr ôl-raddedig y cynlluniwyd ar eu cyfer. Roedd y sector Addysg Uwch yn parhau i fod mewn cyfnod o newid yn dilyn y pandemig gyda myfyrwyr llawn amser o'r Deyrnas Unedig yn medru dewis o blith ystod ehangach o sefydliadau gan fod chwyddiant graddau arholiadau Safon Uwch wedi bod yn frith ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd hyn ochr yn ochr â'r lleihad cynlluniedig yn yr hyn a gynigiwyd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam Ar-lein, a oedd yn golygu y rhagfynegwyd y byddai'r lefelau incwm ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn fwy na £3m yn is na'r targed.

Gwnaeth cydnabod y diffyg incwm hwn yn gynnar arwain at gyflwyno mesurau lliniaru ar draws y Brifysgol er mwyn lleihau'r effaith ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Ar y cyd â'r bwriad i waredu ased dros ben, byddai hyn yn gadael y Brifysgol mewn sefyllfa gwarged net erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Gwnaeth holl is-gwmnïau'r Grŵp barhau i weithredu, gyda'r ddau sy'n ymwneud â'r cyhoedd (Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndŵr Innovations) yn masnachu dan amodau anodd, yn gorfod rheoli sgil-effeithiau'r pandemig a chwyddiant costau allweddol tra hefyd yn ymdrin â phroblemau cadwyni cyflenwi a newid mawr ym mhatrymau ymddygiad, disgwyliadau a gofynion defnyddwyr. Arweiniodd hyn at darfu ar yr amodau gweithredol. Er gwaethaf hyn, llwyddodd dau o'r tri is-gwmni i gynhyrchu gwarged gyda'r llall yn parhau mewn diffyg, ond gyda chefnogaeth lwyr y Brifysgol fel y rhiant gorff.

Parhaodd y Brifysgol i ddarparu'r cynnig Addysg Uwch i'w fyfyrwyr drwy gyfuniad o ddysgu ar y safle ac o bell, drwy gydol y flwyddyn. Cynigiwyd hyn oll dan yr amodau sy'n ofynnol yn y Fframwaith Dysgu Gweithredol a ddatblygwyd gan y Brifysgol.

Mae'r flwyddyn ariannol ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi'i nodweddu gan barhau i reoli costau a rheoli incwm yn gadarn i sicrhau lefel dderbyniol o ran y perfformiad ariannol erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd hynodrwydd yn y modd y cydnabyddir costau ymgysylltu rhyngwladol daeth cost arwyddocaol ar y Brifysgol yn gysylltiedig â'r nifer uwch nag a ragwelwyd o fyfyrwyr rhyngwladol. Tra bo'r costau wedi llurgunio'r sefyllfa alldro, mae mwyafrif helaeth y cynnydd incwm sy'n gysylltiedig â'r garfan fyfyrwyr hon yn rhan o flwyddyn ariannol 23/24.

Er gwaetha'r sefyllfa o ddiffyg ariannol, llwyddodd Grŵp y Brifysgol i gynyddu cyfanswm yr incwm i £50,9m, cynnydd ar y flwyddyn flaenorol (£47.2m). Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd uchafu ffrydiau

ffioedd dysgu wedi'u hategu gan beth incwm un tro'n unig a dderbyniwyd ar ffurf grantiau ychwanegol gan y llywodraeth. Parhaodd y Tîm Gweithredol i fonitro'r holl ffrydiau incwm a'r sail costau yn ofalus a chyflwynwyd nifer o weithredoedd rheoli i leihau costau a chael gafael ar ffrydiau incwm priodol i reoli cyllid y Grŵp o fewn terfynau derbyniol. Cafodd y diffyg yn yr incwm dechreuol ei liniaru'n rhannol ond parhaodd i arwain at ddiffyg gweithredol terfynol o £1.380m.

Mae'r rownd arferol o gyfrifyddu pensiynau unwaith eto'n cyflwyno addasiadau i'r diffyg gweithredol, ac yn y flwyddyn hon roedd effaith costau Gwasanaeth Cyfredol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cyflwyno tâl tybiannol yng nghyswllt atebolrwyddau gwasanaeth cyfredol o £479k, lleihad arwyddocaol ar ffi y flwyddyn flaenorol. Yn ychwanegol, roedd y tâl llog tybiannol yn £360k.

Bu oedi yn y cynnydd o ran gwaredu asedau fel y cynlluniwyd, fel rhan o strategaeth gyllido Campws 2025, gan na wireddwyd gwaredu unrhyw asedau, gyda gwaredu cynlluniedig safle Ffordd y Deon wedi'i oedi tan fis Hydref 2023. Golygodd hyn fod y arian disgwyliedig a'r elw dilynol wedi'i symud i flwyddyn ariannol 23/24. Roedd hyn yn rhannol gyfrifol am y diffyg sy'n cael ei ddangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Golygodd y cynnydd mewn cyfraddau llog ar draws y flwyddyn fod y Brifysgol yn parhau mewn sefyllfa ffodus o fod wedi ad-dalu ei benthyciad tymor hir ac nad oedd benthyciadau eraill ar y fantolen ac felly ddim yn wynebu'r cynnydd costau a ddaw yn sgil cyfraddau llog yn cynyddu. I'r gwrthwyneb, elwodd o fuddsoddi cronfeydd derbynion cyfalaf yn y tymor byr i ennill oddeutu £382k o log yn ystod y flwyddyn.

Mae'r diffyg mynegeio o ran y ffioedd dysgu wedi golygu bod yr holl gynnydd mewn costau wedi gorfod cael eu hamsugno trwy un ai gynnydd yn nifer y myfyrwyr, twf mewn meysydd eraill sy'n cynhyrchu incwm neu leihau/rheoli costau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i fabwysiadu'r strategaeth hon a gwelodd 2022/23 barhad y twf mewn Addysg Trawswladol a rhaglenni Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Ar-lein, ynghyd â chynnydd pellach yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol (a'r incwm cysylltiedig).

Roedd yr incwm Ffioedd Rhyngwladol oddeutu £15.3m yn ystod y flwyddyn. Bydd y mentrau twf incwm Ffioedd Ddysgu a mentrau arallgyfeirio yn parhau i ehangu yn 2023/24 ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu ein rhaglen i Fyfyrwyr Rhyngwladol. Y prif ychwanegiad ar gyfer y flwyddyn 22/23 oedd blwyddyn gyntaf gweithredu'r contract 10 mlynedd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer y rhaglenni nyrsio a'r rhaglenni i broffesiynau iechyd cysylltiedig.

## Sefydliad Cynaliadwy

Mae strategaeth ariannol Prifysgol Wrecsam yn hyrwyddo arallgyfeirio ffrydiau incwm o amrediad eang o gynigion addysgol. Hysbysir siâp a maint y cwricwlwm gan faterion academaidd ansawdd, addysgeg a dymunoldeb a gan y persbectif ariannol o sicrhau galw digonol i gynhyrchu cyfraniadau ffioedd dysgu i fodloni gofynion cyffredinol sefydliad cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gwarged digonol i ganiatáu buddsoddi arian yn yr adnoddau a'r seilwaith addysgu a dysgu.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gadw at y strategaeth ariannol ac yn benodol gynhyrchu incwm a Dangosyddion Perfformiad Allweddol i'r rheolwyr a'r llywodraethwyr, trwy'r pecyn adroddiad gwybodaeth busnes misol.

Ymhlith y prif risgiau sy'n cael eu monitro'n rheolaidd mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ariannol (gweler isod) sy'n canolbwyntio ar arian parod a chynaliadwyedd.

Cyflawnir cynlluniau a blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf trwy gynllun Campws 2025 y Brifysgol. Mae'r gwaith o adnewyddu ac adeiladu cyfleusterau newydd yn parhau trwy ddefnyddio grantiau allanol a chronfeydd mewnol i gyflawni cynlluniau gwella cyfalaf a nodir yn y cynllun lefel uchel.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac mae nifer o weithgareddau anghreiddiol ac eitemau nad ydynt yn arian parod sy'n dylanwadu ar y gwarged/diffyg a gofnodir yn y datganiad incwm cynhwysfawr. Fel y dangosir yn y tabl isod, mae natur yr eitemau hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag, mae gwerth yr eitemau yn newidiol ar draws y blynyddoedd ac felly'n effeithio ar warged y Brifysgol.

Rhoir crynodeb o effaith y rhain yn y tabl isod:

| | Year ended 31st July 2023 (£000) |
|---|---|
| **Total Comprehensive Income for the Year** | **9,899** |
| Deduct Acturial gain in respect of pension schemes | (12,151) |
| Deduct Gain on disposal of fixed assets | (17) |
| Add back Taxation | 50 |
| **Net Deficit including Pensions adjustments** | **(2,219)** |
| Ass back LGPS Current Service Cost Adjustment | 479 |
| Add back LGPS Pensions Interest | 360 |
| **Net Operating Deficit** | **(1,380)** |

Y gwarged gweithredol net sy'n cynrychioli gwir fesur agweddau ariannol y gweithgareddau gweithredol 'y gellir eu rheoli' gan y Brifysgol a'r Grŵp.

## Proffil incwm a gwariant hanesyddol

| | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £000's | £000's | £000's | £000's |
| Total academic income | 43,396 | 41,480 | 42,001 | 31,764 |
| Total non-academic income | 7,503 | 5,726 | 5,051 | 5,216 |
| **Total gross income** | **50,899** | **47,206** | **47,052** | **36,980** |
| **Total Pay costs excluding additional LGPS staff pension costs** | **(27,431)** | **(25,180)** | **(22,478)** | **(22,452)** |
| **Total Non pay costs** | **(24,848)** | **(21,308)** | **(20,625)** | **(12,654)** |
| **Total expenditure excluding additional LGPS staff pension costs** | **(52,279)** | **(46,488)** | **(43,103)** | **(35,106)** |
| **Operating surplus/ (deficit) excluding additional LGPS staff pension costs and asset impairment** | **(1,380)** | **718** | **3,949** | **1,874** |
| LGPS Pension Costs excluding employer contributions | (839) | (2,481) | (2,120) | (1,519) |
| Impairment of assets | 0 | 0 | (98) | 0 |
| Profit/(loss) on disposal of fixed asset | 17 | 5,999 | (3) | 424 |
| Profit/(loss) on disposal of long term debtor | 0 | 642 | 0 | 0 |
| Tax | (50) | (40) | (20) | (66) |
| **Net surplus / (deficit)** | **(2,252)** | **4,838** | **1,708** | **713** |


## Dangosyddion perfformiad ariannol allweddol

| | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Total Income | 50,899 | 47,206 | 47,052 | 36,980 |
| Net surplus / (deficit) as a % of total income | (4.4%) | 10.2% | 3.6% | 1.9% |
| Cash balance (£000's) | 26,971 | 17,992 | 5,933 | 4,591 |
| Staff costs including additional LGPS staff pension costs as a % of gross income | 55.5% | 58.6% | 52.3% | 64.8% |

## Lefelau incwm

| | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Tuition fees and education contracts | 37,129 | 33,112 | 26,921 | 25,911 |
| Funding body grants | 5,567 | 6,825 | 4,164 | 3,817 |
| Research grants and contracts | 700 | 1,543 | 679 | 143 |
| Other income | 7,011 | 5,599 | 5,085 | 5,983 |
| Investment income | 382 | 126 | 131 | 111 |
| Donations and endowments | 110 | 1 | - | - |
| | **50,899** | **47,206** | **36,980** | **35,965** |

## Analysis of Group Turnover





Gwnaeth cyfanswm incwm y grŵp gynyddu ychydig i £50.9m. Gwnaeth yr incwm Ffioedd Dysgu barhau i gynyddu o £33.1m yn 21/22 i £37.1m yn 2022/23. Bu lleihad yn y grantiau gan gyrff cyllido wedi'u sianelu trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys grantiau wedi'u targedu a gyflwynwyd un tro yn unig gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo myfyrwyr a sefydliadau i ymdopi wrth adfer o gyfnod y pandemig.

Mae prif ffynhonnell incwm y Brifysgol yn parhau i ddod o ffioedd dysgu a chytundebau addysg sy'n darparu 73% o gyfanswm yr incwm, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021/22 (70%), a achoswyd gan y twf mewn Ffioedd Myfyrwyr Rhyngwladol.

Gwelwyd lleihad arwyddocoal mewn incwm o Grantiau a Chytundebau Ymchwil, wedi gostwng o £1.543m yn 2021/22 i £0.700m yn 2022/23; lleihad o 54%. Gellir tadogi hyn i raddau helaeth i brosiect y Ganolfan Rhagoriaeth Ffotoneg, a gyllidwyd gan WEFO, yn dod i ben. (Sicrhawyd nifer o grantiau arwyddocaol yng nghyfnod olaf 2022/23 a bydd yr incwm yn cael ei gofnodi o 2023/24 ymlaen, unwaith y bydd y gweithgareddau'n dechrau.)

## Gwariant y Grŵp





Mae cyfanswm gwariant y Grŵp yn 22/23 yn £53.1m, o'i gymharu â £48.9m yn 21/22. Mae Prif Wariant y Grŵp ar addysgu a dysgu, ond mae'n gwario arian ar amrediad o feysydd eraill er budd myfyrwyr i'w cefnogi a chyfoethogi eu profiadau fel myfyrwyr.

**Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam:** Cyfrannodd y Brifysgol £400,000 fel grant bloc yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo gyda chynnal yr Undeb Myfyrwyr.

**Costau ychwanegol un tro yn unig yn 2022/23:** Nod y Brifysgol yw gwario ar lefelau yn unol â'r lefelau incwm a gynhyrchwyd ganddi yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd costau un tro yn unig i adrodd amdanynt yn 2022/23.

## Buddsoddiad Cyfalaf




Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i chynlluniau Campws 2025 uchelgeisiol yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd grant cyfalaf gan CCAUC yn ystod y flwyddyn i gyllido gwelliannau i'r campws, yn unol â'r strategaeth Campws 2025 gytunedig. Gwelodd hyn ragor o ddatblygu Cam 2A y Chwarter Addysg Iechyd a gwelliannau i'r ardaloedd addysgu a dysgu mewnol, yn cynnwys adnewyddu bloc K Lôn Crispin i ategu'r Ganolfan Efelychu Gofal Iechyd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth mannau addysgu a dysgu i greu cyfleusterau o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr nyrsio a'r myfyrwyr proffesiynau iechyd cysylltiedig, a ddechreuodd ar eu hastudiaethau ar ddechrau blwyddyn 22/23 a'r garfan newydd a ddechreuodd ym mis Medi 23.

Roedd gwerthiant safle Ffordd y Deon i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol, ond gwnaeth oedi o ochr y prynwr weld cwblhau'r gwerthiant yn llithro i flwyddyn ariannol 23/24. Cwblhawyd y gwerthiant ar 6 Hydref 2023 a arweiniodd at lif arian gwerth £4.949m o ran yr arian parod a dderbyniwyd (yn dilyn didynnu ffioedd ac ystyriaethau eraill). Bydd y Brifysgol yn derbyn £0.5m arall ym mis Chwefror 2024. Effaith hyn fydd creu elw yn y flwyddyn ariannol ar waredu ased am fwy na £4m.

Bydd y Bwrdd yn parhau i ddefnyddio derbynion cyfalaf, ynghyd â grantiau ac adnoddau mewnol i'w hailfuddsoddi i gyflawni'r rhaglen Campws 2025.

## Llif Arian a Chyllido

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y balansau arian parod yn £27m, a oedd yn uwch na'r targed gwreiddiol yn y gyllideb. Achoswyd yr amrywiad hwn gan y diffyg, gyda chynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol ym mis Mehefin wedi creu lefel arwyddocaol o ragdaliadau yn y banc erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cronfeydd arian wrth gefn wedi'u cronni o wargedau'r blynyddoedd blaenorol ochr yn ochr â'r derbynion cyfalaf o waredu asedau a'r rhagdaliadau net arferol o weithgareddau parhaus.

Mae'r Brifysgol wedi paratoi rhagfynegiad llif arian manwl yn fisol ar gyfer y 12 mis yn diweddu 31 Gorffennaf 2024 ac mae o'r farn y bydd ganddi adnoddau arian parod a hylifedd digonol yn ystod y cyfnod hwn i reoli ei thrafodion a'i gweithgareddau cynlluniedig. Mae'r rhagfynegiadau hyn yn dynodi llif arian cadarnhaol yn ystod y flwyddyn.

Bydd angen rhagor o fenthyca yn y dyfodol er mwyn cwblhau'r rhaglen Campws 2025, ond mae'n bosibl na fydd hyn tan 2024/25.

## Datganiad y Sefyllfa Ariannol (y Fantolen)

Ymddengys bod Datganiad y Sefyllfa Ariannol wedi cryfhau gyda'r Cyfanswm Asedau Net bellach yn £60.6m (£51m yn 21/22); fodd bynnag, achoswyd llawer o hyn gan y gwelliant yn y ddarpariaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a nodir fel dim ar y fantolen (roedd yn ddiffyg o £11,312k).

Roedd y ddarpariaeth yn £40,898k yn 2020, ond yn flaenorol bu'n £31,225k yn 2019, £20,159k yn 2018, £26,130k yn 2017, £32,226k yn 2016 a £22,559k yn 2015. Mae amrywiadau o'r fath y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol ac felly nid ydynt yn ddefnyddiol iawn wrth ystyried y sefyllfa ariannol gyffredinol. Rhoir rhagor o wybodaeth am y sefyllfa darpariaethau pensiwn isod.

Mae'r Asedau Sefydlog wedi cynyddu yn dilyn cyfalafu nifer o brosiectau allweddol yn ystod y flwyddyn yng nghampysau Plas Coch, Stryt y Rhaglaw a Llanelwy. Mae'r Brifysgol hefyd yn adrodd am asedau anniriaethol o £252k am y tro cyntaf, yn cynnwys yn bennaf y system gyflogres/Adnoddau Dynol newydd (iTrent) a System Rheoli Gwybodaeth Ymchwil (CRIS).

## Pensiynau

Mae'r Grŵp yn rhan o dri chynllun pensiwn, y Cynllun Pensiwn Athrawon, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Cronfa Bensiwn Clwyd a'r Cynllun Blwydd-dâl Prifysgolion. Ni fu'n bosibl adnabod cyfran y sefydliad o'r asedau a'r ymrwymiadau o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Blwydd-dâl Prifysgolion; ac felly fe'u cyfrifyddir fel petaent yn gynlluniau cyfraniad diffiniedig. Fodd bynnag, dan y Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) 2019 ceir rhwymedigaeth o £129k (2019 - £122k), yn dilyn cwblhau prisiad 2019, i ystyried y diffyg yn y Cynllun Blwydd-dâl sy'n cael ei ad-dalu ar hyn o bryd trwy gyfraniadau ychwanegol cytunedig.

Mae'r symudiadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ddramatig gyda thaliadau tybiannol ychwanegol o tua £479k yng nghyswllt yr amcangyfrif Costau Gwasanaeth Cyfredol yn cael ei nodi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y flwyddyn.
.

Mae'r Brifysgol yn canfod ei hun yn y sefyllfa ffodus yn y flwyddyn ariannol hon ble bo gwerth teg asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn uwch na gwerth cyfredol yr ymrwymiadau buddion. Yn iaith pobl

gyffredin, mae'r cynllun mewn sefyllfa warged, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol pan fu cyfrifyddu ar gyfer sefyllfa ddiffyg y cynllun pensiwn. Canlyniad hyn yw lleihad yn lefel y cyfraniadau am y cyfnod tair blynedd yn dechrau o 1 Awst 2023 a bellach mae'r diffyg pensiwn yr adroddwyd amdano yn dangos 'dim' ar y fantolen.

## Y Rhagolygon Ariannol

Yn ystod 2022/2023 gwnaeth y Brifysgol godi ffi dysgu blynyddol o £9,000 ar fyfyrwyr israddedig llawn amser o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, o'i gymharu â'r £9,250 a godwyd gan sefydliadau yn Lloegr.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i'r Cyngor Cyllido ar gyfer 2018/19 i wneud iawn bod y ffi yn parhau i gael ei gapio ac mae hwn wedi'i rannu i sefydliadau ar ffurf grant lliniaru ffioedd. Mae'r cap o £9,000 ar y ffi yn parhau ar hyn o bryd; fodd bynnag, ni chynigwyd y grant lliniaru ffioedd yn 2019/20 ac ni chafodd ei adfer ar gyfer 2020/21, 2021/22 na 2022/23. Comisiynwyd Adolygiad Addysg Ôl-18 a Chyllido yn Lloegr (Augar) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyhoeddwyd adroddiad yn 2019. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad hwn o'r system yn Lloegr yn dylanwadu ar benderfyniadau cyllido yng Nghymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r fethodoleg ar gyfer cyllido sefydliadau yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol yn ansicr.

Bydd gweithredu Strategaeth Cyllid y Brifysgol yn gweld y Brifysgol yn parhau gydag iechyd ariannol cynaliadwy ac yn parhau ar y trywydd cywir i wireddu ei chenhadaeth bwysig.

Amcanion ariannol allweddol y strategaeth yw:

1. Sicrhau Cynaliadwyedd Ariannol tymor hir y Brifysgol.
2. Cynnal Solfedd.
3. Hyrwyddo Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian.
4. Sicrhau safonau uchel Uniondeb ac Atebolrwydd ariannol.
5. Cynyddu gwerth ac amrywiaeth yr incwm o ffynonellau cyhoeddus, preifat a busnes.
6. Sicrhau bod y Risgiau Ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n bodoli eisoes a chyfleoedd newydd yn cael eu cyfathrebu a'u rheoli'n briodol.
7. Defnyddio dull clir a chadarn o ran Cynllunio Ariannol, gwneud penderfyniadau a Dyrannu Adnoddau.
8. Darparu dulliau talu diogel, effeithiol ac effeithlon i'r amrywiaeth o gwsmeriaid.

Dengys datganiadau ariannol 2022/23 fod y Brifysgol wedi defnyddio 54% o'i hincwm ar gostau staff uniongyrchol (ac eithrio pensiynau), sy'n lleihad bach ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gyson a'r nomau yn y sector a thargedau'r Strategaeth Ariannol.

Mae effaith ffioedd pensiwn, y rhai arian parod ac, yn benodol, y rhai anariannol, yn cael effaith sy'n gwyrdroi, sy'n cynyddu metrics y Dangosydd Perfformiad Allweddol costau staffio (55.5%) fel canran y trosiant. Fodd bynnag, trwy barhau i sicrhau bod y trosiant yn tyfu a rheoli costau'n effeithiol, mae'n darparu sylfaen ariannol gadarn i'r Brifysgol, sy'n ei galluogi i gynllunio ar gyfer cynyddu'r gwargedau arian parod a chyfrifyddu i ddarparu'r cyllid ar gyfer y rhaglen ddatblygu uchelgeisiol a nodir yn y strategaeth Campws 2025.

Er mwyn cynhyrchu cyllid datblygu ac i wrthsefyll yr ansicrwydd yn deillio o'r trefniadau ffioedd cyfredol mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol i dyfu ac arallgyfeirio ei sail incwm trwy ddatblygu rhaglenni academaidd newydd

a buddsoddi mewn gweithgareddau ymchwil ac arloesi, i'w darparu trwy'r ystad a seilwaith newydd ac wedi'i uwchraddio ochr yn ochr â rhaglen academaidd wedi'i hadfywio. Fel rhan o sicrhau twf yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol, mae'r Tîm Rhyngwladol wedi bod yn targedau gwahanol wledydd i ledaenu risg newidiadau deddfwriaethol, ac mae hyn wedi arwain at amrywio'r gwledydd mae'r myfyrwyr yn dod ohonynt.

Gwelodd 2023/24 yr ail garfan o fyfyrwyr yn astudio'r rhaglenni Addysg Iechyd a phroffesiynau iechyd cysylltiedig, gan arwain at 24/25, sef y flwyddyn y bydd gennym ni fyfyrwyr yn astudio ar y tair lefel fydd yn cynrychioli'r garfan lawn y lleoedd a gomisiynwyd gan Addysg Iechyd a Gwella Cymru.

Felly, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adoddiad hwn, cwblhawyd y broses o werthu safle Ffordd y Deon, gan orffen elfen gwaredu asedau y strategaeth Campws 2025 a darparu cronfeydd allweddol i'w hailfuddsoddi yng nghampws Plas Coch.

## Y prif risgiau ac ansicrwydd

Mae'r prif risgiau ac ansicwydd sy'n wynebu'r Brifysgolynparhauyrunfathagynyblynyddoedd blaenorol, fel a ganlyn, ac fe'u rheolir yn briodol (cyfeiriwch at yr adran Rheoli Risgiau a Rheolaethau Mewnol am ragor o wybodaeth):

- Recriwtio a chadw myfyrwyr cartref ac o'r Undeb Ewropeaidd o gofio'r amgylchedd gwleidyddol ac economaidd ansicr a'r tueddiadau demograffig;
- Mae myfyrwyr is-raddedig ac ôl-raddedig o dramor wedi bod yn ffynhonnell incwm gynyddol dros y blynyddoedd d ond mae barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn newid yn barhaus ynghylch niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol achosi ansicrwydd ynghylch y ffynhonnell incwm bwysig hon;
- Rheoli y llif arian yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ran amseru'r taliadau ffioedd dysgu ar y balansau arian parod a gedwir gan y Grŵp ar unrhyw un adeg, er gwaethaf bod y balansau arian parod yn parhau'n sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn (£27m);
- Rheoli perfformiad ar draws endidau a lleoliadau cymhleth ac amrywiol y Grŵp a harmoneiddio gweithgareddau lle bo'n briodol er mwyn sicrhau enillion strategol;
- Mae perfformiad ariannol yr is-gwmni Glyndŵr Innovations Limited a pha mor gyflym y gall ddychwelyd i sefyllfa elw yn parhau i beri pryder; a
- Y benthyca sy'n ofynnol i gyflawni prosiectau adeiladu ar gyfer datblygu'r Brifysgol yn y dyfodol dan y rhaglen Campws 2025.

## Yr ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i ddeall a rheoli ei effaith ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i arddangos yr arferion gorau ym maes rhagoriaeth amgylcheddol a chynaliadwy drwy weithredu ei Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2021- 2025.

Mae'r Strategaeth hon wedi cryfhau ac ysgogi ystod o weithgareddau ac ymyriadau drwy greu diwylliant ac ethos cryfach drwy ymgysylltu â'r staff, y myfyrwyr a'r gymuned.
Mae'r meysydd blaenoriaeth mae Prifysgol Wrecsam wedi bod yn

1. Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy – yn sylfaen i holl themâu'r Brifysgol, mae hyn yn hanfodol i gyflawni newid diwylliannol ar draws cymuned y Brifysgol a gwelliannau dilynol yn ei pherfformiad amgylcheddol.

2. Partneriaethau ac Ymgysylltu – creu cyfleoedd lle gall unigolion a chymunedau ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiadau i ymgysylltu gyda a dylanwadu ar ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau gwaddol i genedlaethau'r dyfodol.

3. Effaith Amgylcheddol Campws 2025 – lleihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd naturiol trwy reoli ein hystad a'n hadnoddau.

Bu Prifysgol Wrecsam yn gweithio tuag ei Llwybr i fod yn Garbon Niwtral yn 22/23, dogfen fframwaith strategol sy'n cynnwys prif feysydd blaenoriaeth i'w gweithredu a'r cerrig milltir y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn i sefydliad fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Yn ystod 22/23 llwyddodd Prifysgol Wrecsam i gyflawni nifer o ddeilliannau allweddol:-

- Gwella ei safle o 6 lle i gyrraedd safle 36 yn nhabl Cynghrair Gwyrdd Pobl a'r Blaned (sy'n cael ei nodi fel cyflawniad dosbarth 2:1). Perfformiodd y Brifysgol yn dda iawn hefyd yn yr adrannau Ymgysylltu â'r Staff a'r Myfyrwyr (100%) a Staff ac Adnoddau Dynol (100%).
- Bod y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i weithredu polisi gwasanaeth gyrfaoedd rhydd o danwyddau ffosil, ac un o ddim ond pedair prifysgol yn y Deyrnas Unedig i gyflawni 100% yn y categori hwn yn nhabl Cynghrair Gwyrdd Pobl a'r Blaned.
- 100% o wastraff wedi'i wyrdroi o safleoedd tirlenwi.
- Lleihad blynyddol o 8.6% mewn allyriadau carbon, sy'n cyfateb i leihad 53% o'i gymharu â llinell syflaen 2009/10.
- Buddsoddi yn uwchraddio'r system oleuo yng Nghanolfan Edward Llwyd er mwyn lleihau faint o ynni a ddefnyddir drwy ddefnyddio goleuadau LED modern.
- Partneriaeth newydd yn gweithio ochr yn ochr â sefydliad Amgylchedd Stockholm Prifysgol Efrog a'r rhaglen pedair blynedd ar yr Economi Ddigidol i sefydlu Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol.

**David Elcock**
Executive Director of Finance

**Paul Barlow**
Chair of Strategy and Finance Committee
(from September 2023)

# Gwybodaeth elusennol

**Mae Prifysgol Wrecsam yn elusen gofrestredig dan delerau'r Ddeddf Elusennau 2011 (rhif elusen gofrestredig 1142048).**

| | |
|---|---|
| Swyddfa Gofrestredig | Ffordd yr Wyddgrug<br>Wrecsam<br>LL11 2AW |
| Bancwyr | Barclays Bank PLC<br>Liverpool Lord Street<br>Caerlyr / Leicester<br>LE87 2BB<br><br>DfCC Bank PLC<br>No. 73/5 Galle Road<br>Colombo<br>Sri Lanka |
| Archwilydd Allanol | KPMG LLP<br>1 Sovereign Square<br>Leeds<br>LS1 4DA |
| Archwilydd Mewnol | RSM LLP Festival Way<br>Festival Park<br>Stoke-on-Trent<br>ST1 5BB |

# Datganiad budd y cyhoedd

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam yn Elusen Gofrestredig (rhif 1142048) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Cyfeiriad cofrestredig yr elusen yw Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW. Mae aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ymddiriedolwyr yr elusen ac yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus.

Mae'r Brifysgol yn Gorfforaeth Addysg Uwch a dan adran 124 Deddf Diwygio Addysg 1988 mae ganddi'r pŵer i:

- ddarparu addysg uwch;
- darparu addysg bellach; a
- cynnal ymchwil a chyhoeddi'r canlyniadau

Mae gan y Brifysgol swyddogaeth benodol yn y gymdeithas sy'n cynnwys ymgysylltu'n ddwfn â'r rhanbarth a'r gymuned. Nodir swyddogaeth y Brifysgol yn glir yn ei gweledigaeth a strategaeth a'i chenhadaeth, ond yn fwy penodol yn ei holl weithredoedd.

Mae'r Brifysgol yn ceisio darparu a hybu addysg uwch yng ngogledd ddwyrain Cymru, Cymru, y Deyrnas Unedig a thramor, trwy gyfranogiad unigolion mewn rhaglenni astudio wedi'u hysbysu gan ymchwil, eu harwain gan ddiwydiant ac sy'n berthnasol yn alwedigaethol, sy'n arwain at ddyfarnu graddau neu gymwysterau priodol eraill a gwaith ymchwil cymhwysol. Nod y Brifysgol, trwy ei gweithgareddau craidd, yw datblygu pobl broffesiynol sy'n barod ar gyfer gyrfa sy'n bodloni anghenion yr economi ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.



## Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg Uwch

Mae ehangu mynediad a chyfranogiad yn rhan annatod o gymeriad y Brifysgol fel prifysgol arweiniol o ran cynhwysiant cymdeithasol a symudedd. Rydym ni'n cynnig cyfleoedd addysg uwch i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol ac mae ein graddedigion yn cyflawni canlyniadau da sydd hefyd o fudd i'w cyflogwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'r Brifysgol yn y safle cyntaf yng Nghymru a Lloegr o ran cynhwysiant cymdeithasol unwaith eto 2. Mae'r safle hwn yn cynnwys safleoedd nodedig eraill megis y cyntaf yng Nghymru a Lloegr am gyfran y myfyrwyr anabl (19.1%), y pedwerydd safle yng Nghymru a Lloegr o ran derbyniadau o ysgolion y wladwriaeth (98.4%), a seithfed yng Nghymru a Lloegr am fyfyrwyr cenhedlaeth gyntaf (59.3%). Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn denu 53.7% o'i phoblogaeth myfyrwyr o ranbarth Gogledd Cymru3 (Ffynhonnell: data myfyrwyr HESA (FPE) 21/22).

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Mae amcanion y cynllun yn cynnwys darparu cymorth academaidd a lles i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymrwymiad i wella eu profiad o addysg uwch, datblygu a hyrwyddo cymuned myfyrwyr ac academaidd gynhwysol ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymo i ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr; sicrhau cyflogadwyedd graddedigion; a chryfhau ymgysylltu cymunedol. Mae'r perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn yn cael eu monitro'n ofalus.

Mae myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig llawn amser a rhan amser yn medru cyflwyno cais am fenthyciadau ffioedd dysgu a grantiau neu fenthyciadau i gynorthwyo gyda chostau byw gan yr asiantaeth Cyllid Myfyrwyr. Gall myfyrwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau, a myfyrwyr â dibynyddion, plant neu oedolion, gael cymorth ychwanegol. Cynigir bwrsarïau i fyfyrwyr meddygol a gwaith cymdeithasol trwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ôl eu trefn.

Mae gennym ni ystod o gynlluniau, yn cynnwys bwrsarïau ac ysgoloriaethau, i gynorthwyo myfyrwyr i ddod i addysg uwch, yn cynnwys cronfa ddisgresiynol i helpu'r rhai sydd angen cymorth ariannol i barhau gyda'u hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal ac mae'n darparu bwrsari o £1000 y flwyddyn i'r rhai sydd wedi gadael gofal a phecynnau cymorth i'w cynorthwyo, gyda gwarant o lety ar y campws ar gyfradd ddisgownt am y flwyddyn gyntaf. Bu modd i'r Brifysgol roi cymorth gwerth £14,500.00 i 25 o unigolion wedi gadael gofal yn ystod 2022/23.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i'r Stand Alone Pledge sy'n cefnogi myfyrwyr sy'n astudio heb gymorth a chefnogaeth rhwydwaith teulu yn parhau a rhoir cefnogaeth i'r myfyrwyr hyn trwy fwrsari o hyd at £1000 y flwyddyn. Rhoddwyd cymorth i naw myfyriwr gyda'r bwrsari hwn yn 2022/23 gan roi cymorth gwerth £7,500.00.

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda myfyrwyr sy'n torri eu cwys eu hunain trwy ein Gwasanaeth Cyngor am Arian a Chyllido a thrwy ein gwaith allgymorth gydag ysgolion a cholegau; a'n gwaith gyda hostelau lleol ac elusennau'r digartref sy'n cynorthwyo i gyrraedd y rhai heb gymorth cartref.

2 Ffynhonnell: The Times and Sunday Times Good University Guide 2024

3 Ffynhonnell: data myfyrwyr HESA (FPE) 21/22

Rydym ni'n cynnal cronfa galedi i roi cymorth i fyfyrwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ystod 2022/23 cafodd 42 o fyfyrwyr gymorth gan gronfa galedi'r Brifysgol. Roedd mwyafrif y myfyrwyr y rhoddwyd cymorth iddynt yn rhai a ddangosodd eu bod mewn tlodi ariannol oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Roedd y cymorth ariannol yn bennaf ar ffurf talebau bwyd, costau teithio, costau gofal plant a chostau byw. Gwnaeth y Gronfa gefnogi chwech myfyriwr gyda grant i'w cynorthwyo gyda thlodi digidol.

Gwnaeth Cronfa Addysg Thomas Howells barhau i ddarparu grant o £30,000 yn 2022/23. Gwnaeth y Tîm Cyngor Ariannol a Chyllido gysylltu â' r holl fyfyrwyr a oedd yn gymwys i wneud cais am arian o'r gronfa ym mis Tachwedd. Derbyniodd 102 o fyfyrwyr cymwys grant un tro yn unig i gyfrannu tuag at gostau teithio, llyfrau ac offer.

## Ymchwil

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynhyrchu gwaith ymchwil sy'n gweddnewid, gyda ffocws sy'n hysbysu ein haddysgu ac yn cefnogi gweithredoed sefydliadau rhanbarthol a byd-eang. Mae ein Gweledigaeth a'n Strategaeth yn amlinellu ein gwerthoedd o fod yn hygyrch, yn gefnogol, yn arloesol ac yn uchelgeisiol, gyda'n Cenhadaeth Ddinesig yn annog cysylltiadau clos gyda'r gymuned leol er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygiad economaidd cymdeithasol a diwylliannol Gogledd Cymru a thu hwnt. Yn ystod 2022/2023 defnyddiwyd cyllid ymchwil o ffynonellau fel Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig, Adrannau'r Llywodraeth, yn cynnwys y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd a Gofal ac elusennau yn y Deyrnas Unedig. Mae ein themâu ymchwil yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae ymchwilwyr ar draws y Brifysgol yn gwreiddio eu gwaith yn y themâu cymunedau cynaliadwy ac iechyd a llesiant.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae ymchwil a gyllidwyd gan Sefydliad Ymchwil Cyfiawnder wedi cynnwys: Deall y ddirnadaeth am, a'r galw am ailsefydlu ymhlith unigolion â phroblemau defnyddio cyffuriau; Mewnwelediad i gredoau, agweddau ac ymddygiad yng nghyswllt defnyddio cannabis yng Nghymru a Gwerthuso Prosiect Troi Tystiolaeth yn Weithredu gan Sefydliad Iechyd y Byd. Derbyniodd ymchwilwyr yn y Brifysgol gyllid gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i Adolygu a gwerthuso'r modelau gofal cenedlaethol i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae prosiectau ymchwil cydweithredol ar draws sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Yr Adolygiad Gwaith Ieuenctid, y prosiect Addysgeg Siarad a lledaenu Prifysgol y Plant ar draws Gogledd Cymru.

Llwyddodd Adran Celf Prifysgol Wrecsam i sicrhau grant EPSRC am bedair blynedd i gydweithio gyda'r Coleg Celf Brenhinol i sefydlu'r Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol a Mwy i hyrwyddo newid cynaliadwy drwy gyfrwng yr economi ddigidol. Bydd prosiect arall dan arweiniad Prifysgol Caergrawnt, ac wedi'i ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), a fydd yn creu Plaffform Map Agored Cymunedol i genedlaethau'r dyfodol olrhain y gweddnewidiad gwyrdd yn Ynys Môn.

## Ein lle yn y gymuned

Mae maes ymgysylltu Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol yn amlinellu ein nod i gyfoethogi'r rhanbarth a thu hwnt, gan

blaenoriaeth i gydgreu dulliau arloesol o fynd i'r afael ag annhegwch cymdeithasol mewn partneriaeth ag arweinwyr a chymunedau.

Mae ein gwaith yn y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu yn parhau i dyfu ac esblygu trwy ein Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig. Rydym ni'n credu mewn sicrhau ein bod ni'n ychwanegu'r gwerth gorau posibl yn y mannau lle'r ydym ni'n gweithio. Crewyd a datblygwyd ein Cenhadaeth Ddinesig trwy weithio â llu o bartneriaid ar draws Gogledd Cymru ac mae wedi cael ei chydgreu ar sail yr heriau sydd bwysicaf yn ein cymdeithas, a dyna pam bod ein Cenhadaeth Ddinesig yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i roi diwedd ar anghydraddoldeb cymdeithasol yng Ngogledd Cymru erbyn 2030. Yn hanfodol mae ein dull yn canolbwyntio ar fod yn hyblyg ac yn ystwyth fel y medrwn fod yn ddefnyddiol wrth ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n partneriaid, megis pandemig Covid, yr argyfwng costau byw a'r argyfwng newid hinsawdd.

Mae'r enghreifftiau o'r gweithgareddau rydym ni wedi bod yn cymryd rhan ynddynt, yn eu harwain a'u galluogi ar draws y rhanbarth trwy ein Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig yn cynnwys:

- Ar sail llwyddiant prosiect peilot Prifysgol y Plant Wrecsam a Sir y Fflint yn 2021/22, gwnaethom sicrhau dros £800,000 i ledaenu'r prosiect ar draws Gogledd Cymru. Mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ac ystod eang o bartneriaid lleol a rhanbarthol, mae mwy na 50 o ysgolion ar draws y rhanbarth wedi ymrwymo i gymryd rhan ym Mhrifysgol y Plant Gogledd Cymru i alluogi plant a phobl ifanc ym Mlwyddyn 4 i 9 i wneud 30 awr o ddysgu ychwanegol i gwblhau eu Pasbort i Ddysgu a graddio mewn cap a chlogyn yn gynnar yn 2024. Mae'r prosiect hwn yn gyfrwng newid go iawn i gynyddu uchelgais, ehangu cyfleoedd ac annog plant a phobl ifanc i hoffi dysgu. Tyfu a datblygu Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i adeiladu a chynnal cymuned o arweinyddion system Gogledd Cymru a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar draws y rhanbarth i alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r heriau mawr sy'n wynebu'r rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys lansio C4C (cymunedau i gymunedau) fel rhwydwaith i ddod â'r gymuned gynyddol hon o arweinyddion system ac ysgogwyr newid ynghyd i ddysgu ac i arwain gyda'i gilydd. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym mis Mai 2023 ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wnaeth ddod â mwy na 80 o ymarferwyr ynghyd i glywed gan amrediad eang o arweinyddion am eu heriau arweinyddiaeth ac ymchwilio sut y gall y gymuned weithio gyda'i gilydd er mwyn gweithredu ar y cyd.

- Parhau i ddatblygu Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, lle mae partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio, yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu i weithredu dull system gyfan i weithio gyda chymunedau ar draws y rhanbarth a rhannu'r dysgu, yr arferion gorau ac arloesi. Mae nifer o brosiectau'n cael eu cynnal drwy'r bartneriaeth gydweithredol hon, yn cynnwys Naratif Cymunedol, prosiect arloesol rhwng y Brifysgol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru a'r chwe chymuned yn y rhanbarth. Ei nod yw gweithio gyda chymunedau gan ddefnyddio methodolegau creadigol i'w cefnogi yn dweud eu stori am eu lle – bydd y prosiect yn galluogi partneriaid i ddysgu ar y cyd o'r dull hwn a chymhwyso'r dysgu hwn gyda chymunedau eraill a dod yn rhan o'n pecyn ymchwil ac ymgysylltu yn y dyfodol.

- Datblygu ein dull o fod yn Brifysgol sy'n deall Trawma a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod, sydd wedi cynnwys sefydlu rhwydwaith o fyfyrwyr sy'n hyrwyddo'r dull hwn, cymryd rhan mewn ymchwil, monitro a gwerthuso, yn cynnwys lansio adolygiad llenyddiaeth yn edrych ar iaith a therminoleg allweddol 'deall trawma' mewn cydweithrediad a Hwb ACE Cymru a chynhyrchu naratif hydredol am y daith i fod yn brifysgol sy'n deall trawma i'w rannu gyda'r sector addysg uwch. Hefyd gwnaethom lansio Cymuned Ymarfer sy'n Deall Trawma a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod Gogledd Cymru fel rhan o'n hymrwymiad i rannu dysgu ac arferion da a chreu cymunedau sy'n deall trawma.

- Gweitho gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu prosiect Arweinyddiaeth, Dysgu a Dweud Straeon wedi'i ddylunio i gynyddu hunan-barch, hunan hyder, hunan effeithiolrwydd a chydnerthedd plant a phobl ifanc. Mae hawliau plant yn ganolog i'r prosiect hwn, wedi'i seilio ar fethodolegau arweinyddiaeth a dweud straeon wedi'u profi, a fydd yn cynnwys tair elfen graidd: sesiynau adrodd straeon gyda phlant a phobl ifanc a nodwyd, hyfforddiant arweinyddiaeth a dweud straeon i ymarferwyr sy'n gweitho gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn a chreu cymuned ddysgu, rhannu dysgu, mewnwelediadau, arferion da ac annog gweithredu trawsnewidiol.

- Sicrhau bod ymchwil, effaith a gwerthuso yn sylfaen i'n cenhadaeth ddinesig ac yn greiddiol i bopeth rydym ni'n ei wneud. Mae'r datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys cynhyrchu Strategaeth Ymchwil Cenhadaeth Ddinesig, sicrhau bod tystiolaeth, data a mewnwelediad yn hysbysu ein holl waith drwy Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru a chynnal prosiectau ymchwil i werthuso ein gwaith Deall Trawma a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod a Phrifysgol y Plant Wrecsam a Sir y Fflint.

- Cydgynnal neu gymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau i ddenu mwy o bartneriaid i gymryd rhan yn ein gwaith cenhadaeth ddinesig, yn cynnwys:

  - Rhestr 100 o Ysgogwyr Newid i Genedlaethau'r Dyfodol lle cafodd Nina Ruddle, Pennaeth Polisi Cyhoeddus ac Ymgysylltu. ei chydnabod fel un o'r 100 uchaf sy'n ysgogi newid ledled Cymru am ei gwaith ar genhadaeth ddinesig y Brifysgol.

  - Hefyd mae Nina wedi'i phenodi yn aelod o Banel Ymgynghorol UKRI/ERSC/ AHRC & Innovate UK on the Local Policy Innovation Partnerships (LPIP) Hub dan arweinyddiaeth Prifysgol Birmingham ac mae'n cynghori ynghylch cefnogi a chwmpas i arweinyddion polisi ac academaidd allweddol ar draws y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chael ei phenodi gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip, Jane Hutt AS, fel aelod o'r Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol i gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu Deddf Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

  - Mae gwaith y genhadaeth ddinesig ar draws Gogledd Cymru wedi'i ddal fel astudiaeth achos byd-eang gan yr Organisations of Economic Co Operation and Development (OECD) fel un o saith astudiaeth achos byd-eang.

Gwahoddwyd Nina i siarad mewn llawer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol am y gwaith cenhadaeth ddinesig, yn cynnwys yng nghynhadledd fyd-eang Advance HE, trafodaethau'r Panel Cynghrair yr Economi a Llesiant a Rhwydwaith Celf ac Iechyd Cymru. Roedd hefyd yn rhan o

Brifysgol Cymru yn croesawu dirprwyaeth o'r Almaen, ymweliad gan y Gweinidog dros Gyllid ym mis Mai a chynhaliwyd trafodaethau bwrdd crwn gyda'r Gweinidog Addysg yng Nghynhadledd y Blaid Lafur ym mis Mawrth 2023 ac gwneud cyflwyniadau i holl arweinyddion polisi Llywodraeth Cymru am ein gwaith cenhadaeth ddinesig arloesol.

## Datblygu galluoedd ein staff

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu, datblygu, ymgysylltu gyda a chadw'r staff gorau. Trwy weithredu ein Strategaeth Pobl 2020-2024 rydym ni'n ymdrechu i roi cyfleoedd perthnasol i staff ddatblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol yn barhaus i'w galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i weledigaeth ac amcanion strategol y Brifysgol. Mae staff academaidd yn yn cyfrannu at weithgareddau addysgu ac ymchwil i ddatblygu eu hymarfer proffesiynol. Mae staff yn cydweithio ag academyddion mewn prifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol hefyd. developing, engaging and retaining the best staff.

## Enghreifftiau eraill o ddarparu budd cyhoeddus

Yn ystod 2022/23 rydym ni wedi medru cynyddu ystod y mentrau a ddarperir er budd y cyhoedd ehangach y tu hwnt i'r gweithgareddau hynny a wneir trwy ein gwaith Cenhadaeth Ddinesig, wrth i ni ddechrau dychwelyd i lefelau gweithgarwch ar y lefelau cyn y pandemig. Isod rhoir rhai enghreifftiau o'r mentrau a gynhaliwyd yn ystod 2022/23.

- Gweithdai celf dan arweiniad myfyrwyr i blant a phobl ifanc, a arweiniodd at arddangosfeydd llwyddiannus ar agor i'r cyhoedd.
- Cynnal cyrsiau byr am ddim i'r cyhoedd, staff a myfyrwyr, ar bynciau fel presgripsiynu cymdeithasol, ffisiotherapi, seicoleg a chwnsela a datblygu busnes.
- Hybu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cynnwys cyflawni ein Strategaeth Academaidd y Gymraeg a phresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llywodraethir y Brifysgol gan Fwrdd Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr, nad ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol, yn gyffredin gyda sefydliadau elusennol addysg uwch eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae mwyafrif y Llywodraethwyr yn annibynnol o'r Brifysgol, ac mae staff lywodraethwyr a myfyrwyr lywodraethwyr ar y corff hefyd.

# Llywodraethu corfforaethol

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol. Mae'r grynodeb hon yn disgrifio'r modd mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r egwyddorion llywodraethu da perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r arfer orau yn y sector addysg uwch.

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i gynnal trafodion mewn modd cyfrifol a thryloyw, ac i ystyried gofynion cyrff cyllido, y safonau mewn bywyd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Nolan, y Cod Cyfun, Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig fel mae'n berthnasol i Addysg Uwch a Chod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (cyhoeddiad diwygiedig 2020).

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gyfrifol am systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol a'r Grŵp, gan sicrhau bod system gadarn o reoli risgiau, rheolaethau mewnol a llywodraethu, ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Dyluniwyd systemau o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid absoliwt, ynghylch colledion neu gamddatganiadau perthnasol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi mabwysiadu datganiad prif gyfrifoldebau, yn unol â darpariaeth Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020). Fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol ac fe'i adolygir o leiaf bob dwy flynedd.

Mae'r datganiad yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd fel prif awdurdod ariannol, busnes a chyfreithiol y Brifysgol, ac awdurdod cyflogi'r holl staff. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gymeriad addysgol y Brifysgol a'i gweledigaeth a strategaeth, ei henw da, y cynllunio busnes ac academaidd, monitro perfformiad y sefydliad, llywodraethu academaidd effeithiol, cynaliadwyedd ariannol, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, asedau, eiddo ac ystad y Brifysgol a lles y myfyrwyr, gan sicrhau bod ei gwaith yn y meysydd hyn yn bodloni buddiannau rhanddeiliaid y Brifysgol.

Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd wyneb yn wyneb ar y campws yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, gyda nifer fechran o gyfarfodydd hybrid i hwyluso presenoldeb llywodraethwyr ble bo angen.

## Strwythur Llywodraethu Corfforaethol y Brifysgol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn gyda llawer o'i waith manwl yn cael ei drin yn ddechreuol gan ei bwyllgorau sefydlog. Mae gan yr holl bwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol gyda chylch gwaith, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol, ac maent yn cynnwys aelodau annibynnol yn bennaf a benodir yn unol ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan lywodraethwr annibynnol. Mae'r holl bwyllgorau'n adolygu ac yn myfyrio ar eu gwaith, ac yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn diwrnod strategaeth flynyddol ag aelodau Bwrdd yr Is-Ganghellor i adlewyrchu ar berfformiad a chyfeiriad strategol y Brifysgol a materion arwyddocaol eraill. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnod datblygu blynyddol, lle cynhelir sesiwn i'r llywodraethwyr gyfarfod â'r Is-Ganghellor a'r Swyddogion Gweithredol sy'n bresennol.

Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys pump pwyllgor. Darperir adroddiadau ar gylch gwaith ac aelodaeth pob un, yn ogystal â chrynodeb o'r busnes a drafodwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 isod. Darperir adroddiadau tebyg ar gyfer y Bwrdd Academaidd a Bwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor hefyd.

# Y Pwyllgor Archwilio a Risg

**Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gorff cynghori a sefydlwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr i'w gynghori a rhoi trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth ariannol a llywodraethu'r Brifysgol, y trefniadau i hybu'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a'r trefniadau archwilio mewnol ac archwilio allanol.**

Cymeradwyodd y Bwrdd newid yn nheitl y pwyllgor o'r Pwyllgor Archwilio i fod yn weithredol o 2022/23 ac i adlewyrchu ehangder ei waith yn well.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys hyd at dri aelod allanol cyfetholedig o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, nad ydynt yn aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr, sy'n darparu persbectif allanol i drafodaethau'r Pwyllgor.

Mae'r aelodau'n cyfarfod yn breifat ag archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol ar ddechrau pob cyfarfod. Nid oes unrhyw aelodau'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | Cofnod Presenoldeb<br>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Paul McGrady (Cadeirydd) | 4/4 |
| Richard Campbell | 4/4 |
| Mike Harvey (aelod cyfetholedig) | 4/4 |
| Trevor Henderson (aelod cyfetholedig) | 4/4 |
| Diane McCarthy | 2/4 |
| Jayne Owen (aelod cyfetholedig) | 2/3 |
| David Subacchi | 4/4 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith. Yn ystod 2022/23 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bedwar maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

## Y meysydd ffocws hyn oedd:

a. Monitro risigiau'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth datgarboneiddio

b. Gwaith dilynol ar y risgiau diogelwch seiber yn deillio o'r archwiliad mewnol yn 2021/22

c. Cynnal y ffocws ar y risgiau ynghylch methu â chyflawni dyraniad credydau rhan amser CCAUC

d. Parhau i wahodd swyddogion risg arweiniol i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor i drafod eu meysydd risg, gyda ffocws ar fusnes academaidd craidd y brifysgol

## Gwaith arall:

- cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol am y flwyddyn a derbyn adroddiadau naw archwiliad a oedd yn cynnwys: ansawdd data – fframwaith prosiect rhoi'r System Cofnodion Myfyrwyr – SITS - ar waith; fframwaith y strategaeth datgarbondeiddio; partneriaethau adolygu'r fframwaith GDPR – fframwaith llywodraethu ansawdd a monitro'r ddarpariaeth; fframwaith cyflawni'r credydau rhan amser; fframwaith rheoli prosiectau cyfalaf a gwaith dilynol yr argymhellion blaenorol. Bu'r Pwyllgor yn monitro rhoi'r holl weithredoedd rheoli yn deillio o'r adroddiadau archwilio mewnol ar waith;
- craffu ar ddatganiadau ariannol drafft 2021/22 gan ganolbwyntio'n benodol ar farn yr archwilydd allanol, datganiad cyfrifoldebau aelodau, datganiad rheolaeth fewnol a'r datganiad llywodraethu corfforaethol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun archwilio a'r ffioedd archwilio ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023;
- ystyried amrediad o adroddiadau sicrwydd eraill, yn cynnwys: y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, llywodraethu gwybodaeth, cydymffurfio â lefel ffioedd a gofynion cyffredinol y Cynllun Ffioedd a Mynediad, caethwasiaeth fodern, effeithlonrwyddau caffael blynyddol, gwerth am arian, chwythu'r chwiban, hysbysu am ddigwyddiadau difrifol a chydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol a Chod Ymarfer Archwilio CCAUC.
- Adolygodd y Pwyllgor berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â'i effeithiolrwydd ei hun, gan adolygu'r arferion yn erbyn Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020).

# Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

**Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn gyfrifol am fonitro materion strategol, cynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch cyfeiriad strategol y Brifysgol, cadw trosolwg ar faterion ariannol y Brifysgol a datblygiad yr Ystad ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr a rhoi ystyriaeth ddechreuol i a chynghori ar unrhyw fusnes arall y Bwrdd sy'n arbennig o bwysig neu gymhleth nad yw'n dod o dan gylch gorchwyl pwyllgorau eraill y Bwrdd.**

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn. Nid oes unrhyw aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid sydd hefyd yn aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb** Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Judy Owen (Cadeirydd) | 5/5 |
| Paul Barlow | 4/5 |
| Jim Barclay | 4/4 |
| Professor Martin Chambers | 4/5 |
| Professor Maria Hinfelaar | 5/5 |
| Dr Leigh Griffin | 4/5 |
| Maureen Wain | 5/5 |
| Lauren Hole ((Arsylwr) | 3/5 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith. Yn ystod 2022/23 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bedwar maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn. Gwnaeth y Pwyllgor:

## The Committee:

- barhau i fonitro rheoli lefelau incwm a gwariant yn ofalus i gael sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd parhaus y Brifysgol, yn cynnwys perfformiad a chyfeiriad yr is-gwmnïau yn y dyfodol;
- parhau i fonitro'n ofalus a chraffu ar recriwtio a chadw myfyrwyr o ran effaith hynny ar sefyllfa ariannol y Brifysgol a fforddiadwyedd cynlluniau strategol ac uchelgais y Brifysgol yn y dyfodol;
- parhau i graffu ar gynigion ac achosion busnes yn gysylltiedig â'r Strategaeth Campws 2025;
- monitro'r amgylchedd allanol a goblygiadau hynny ar gynlluniau strategol y Brifysgol.

## Gwaith arall:

- craffu ar a chynghori'r Bwrdd ynghylch datganiadau ariannol archwiliedig yr Undeb Myfyrwyr; datganiadau ariannol archwiliedig y Brifysgol 2021/22, y Strategaeth Ariannol a'r cynigion a rhagfynegiadau ynghylch y gyllideb ar gyfer 2023/24;
- craffu ar a chynghori'r Bwrdd ynghylch gwerthu tir nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar Ffordd y Deon;
- cymeradwyo'r ffioedd i fyfyrwyr rhan amser, llawn amser a rhyngwladol yn 2023/24;
- adolygu adroddiadau'r holl gontractau dros £25k a ddyfarnwyd, y sefyllfa o ran dyledion, y dystiolaeth i gefnogi'r Bwrdd i lofnodi'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol a Thelerau ac Amodau Cyllido CCAUC a'r dyraniadau cyllid ar gyfer 2022/23.

Cafodd perfformiad is-gwmnïau'r brifysgol ei fonitro'n ofalus hefyd, trwy graffu ar eu hadroddiadau Rheolaeth Ariannol.

# Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

**Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr ym mhob peth i gydnabod mai y staff, academaidd a phroffesiynol, yw adnodd allweddol y Brifysgol ac ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith a'r polisïau ac arferion y Brifysgol yn annog perfformiad effeithiol a gwireddu potensial llawn yr holl staff.**

Cymeradwyodd y Bwrdd newid teitl y pwyllgor o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn weithredol o 2022/23, yn deillio o adolygiad effeithiolrwydd y bwrdd a gynhaliwyd yn 2021/22.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb** Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Professor Sandra Jowett (Cadeirydd) | 4/4 |
| Paul Barlow | 2/4 |
| Dr Leigh Griffin | 2/4 |
| Professor Maria Hinfelaar | 4/4 |
| Will Naylor (Aelod cyfetholedig) | 4/4 |
| David Subacchi | 4/4 |
| Richard Thomas | 3/4 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith. Yn ystod 2022/23 canolbwyntiodd y pwyllgor ar dri maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

## Gwnaeth y Pwyllgor:

- gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r modd mae'n cyflawni ei gylch gwaith, gan asesu sut mae'n bodloni ei gyfrifoldebau dan y prif themâu a nodwyd yn y cylch gorchwyl. Roedd y rhain yn ymwneud â: (i) diwylliant a gwerthoedd, (ii) cyflogaeth, (iii) diogelwch yn y gweithle, iechyd, llesiant a'r amgylchedd, (iv) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, (v) y Gymraeg.

- monitro'r cynnydd ym maes datblygiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn benodol o ran Hil, drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Croesawodd y Pwyllgor fod y Brifysgol wedi codi i safle 41 yn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, a derbyniodd adroddiadau hefyd ar y gwaith sy'n cael ei wneud tuag at wneud cais am gydnabyddiaeth y Siarter Cydraddoldeb Hil.

- goruchwylio rhoi holl elfennau'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, ar waith, a chynghori'r Bwrdd yn unol â hynny ynghylch cynyddu ffocws y Bwrdd ar faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ehangach.

## Gwaith arall:

- monitro'r gwaith yn ymwneud â diwylliant a gwerthoedd, yn cynnwys derbyn adroddiadau ar yr arolwg ymgysylltu â staff, y gwobrau i staff, gweithgareddau datblygiad staff a'r cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Pobl a Diwylliant 2021-2024.

- ystyried adroddiadau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cytunedig fel eitem agenda sefydlog. Cymeradwywyd Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a'r Datganiad Polisi Diogelwch, y Datganiad Polisi Ynni a Chynaliadwyedd a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar gyfer Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd.

- Cymeradwyo'r Datganiad Atebolrwydd Prevent blynyddol yn dilyn ystyried tystiolaeth i gefnogi'r datganiad, a arweiniodd at gadarnhau fod y Brifysgol wedi dangos tystiolaeth ddigonol ei bod yn ystyried y dyletswydd hwn yn briodol;

- Cymeradwyo ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn dilyn eu hadolygiad tair blynedd, yn cynnwys Rheoli Absenoldeb Salwch, Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Rheoli Straen a Hybu Llesiant yn Gweithle, Gweithio'n Hyblyg, Galluedd, Absenoldeb Rhieni/Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu, Ymddeoliad, Cyfnod Prawf, Urddas yn y Gwaith, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Chwynion Cyflogaeth;

- derbyn adroddiadau ar faterion cyflogaeth, yn cynnwys absenoldeb salwch blynyddol, achosion disgyblu, cwynion cyflogaeth ac urddas yn y gwaith y staff, trafodaethau tâl UCEA a chyfansoddiad y gweithlu yn erbyn meincnodau HESA;

- adolygu canllawiau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ynghylch polisïau ac arferion mynd i'r afael ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol;

- cadarnhau adroddiad blynyddol y Brifysgol ynghylch y Safonau Iaith yn 2021/22, gan nodi meysydd arfer dda a nodwyd o ran gwaith y Brifysgol yng nghyswllt y Gymraeg.

- cadarnhau ymrwymiad y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol, drwy weithredu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg (CYFLE).

# Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

**Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gyfrifol am roi trosolwg i'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch y trefniadau llywodraethu corfforaethol i sicrhau bod y Brifysgol yn dilyn yr arferion gorau.**

Mae'n gyfrifol am adnabod ac argymell penodi Llywodraethwyr newydd i'r Bwrdd, am enwebu Llywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig i bwyllgorau'r Bwrdd, cynghori ar benodi'r Canghellor ac adnabod ac argymell unigolion i dderbyn Cymrodoriaethau Anrhydeddus y Brifysgol i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys llywodraethwr sy'n cynrychioli'r staff academaidd a myfyriwr lywodraethwr yn ogystal ag aelod etholedig allanol nad yw'n aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr. Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod 2022/23.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb**<br>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Claire Homard (Cadeirydd) | 3/3 |
| Dr Leigh Griffin | 2/3 |
| Dr Karen Heald | 2/2 |
| Lauren Hole | 3/3 |
| Professor Maria Hinfelaar | 3/3 |
| Diane McCarthy | 3/3 |
| Bruce Roberts (Aelod cyfetholedig) | 3/3 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith. Yn ystod 2022/23 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bump maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

## Gwnaeth y Pwyllgor:

- adolygu ac ystyried gweithredoedd i'r Bwrdd yn deillio o ddogfen arweiniad i randdeiliaid yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethiant Addysg Uwch yng Nghymru (Camm) – "Effective Stakeholder Engagement – a good practice guide for Welsh universities";
- monitro'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023;
- goruchwylio gweithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd, a ddatblygwyd i ymdrin â gweithredoedd Camm ynghylch materion Cydraddoldech, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ogystal ag argymhellion yn deillio o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22;
- goruchwylio recriwtio llywodraethwyr annibynnol newydd, a arweiniodd at benodi Jayne Owen a Fabrizio Trifiro ym mis Medi 2023;
- adolygu llwyddiant y rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan argymell i'r Bwrdd y dylai'r Athro Sandra Jowett barhau yn y swydd am 2023/24, ac y dylid penodi Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y myfyrwyr lywodraethwyr.

## Gwaith arall:

- adolygu dadansoddiad sgorau hunan hyder y llywodraethwyr o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn y sector, gan ddefnyddio templed Advance HE, a diweddaru matrics sgiliau'r Bwrdd;
- adolygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad ar y cyd sy'n ofynnol i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau ac argymell rhestr ddiwygiedig i'r Bwrdd ei chymeradwyo;
- gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch newidiadau i aelodaeth pwyllgorau gan ystyried y llywodraethwyr ar fin gadael y Bwrdd ym mis Awst 2023, yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion newydd;
- nodi'r diweddariadau ynghylch cymeradwyo Cymrodorion Anrhydeddus;
- adolygu dogfennau llywodraethu yn cynnwys disgrifiad swydd llywodraethwyr, y broses ddethol llywodraethwyr annibynnol newydd, hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr, mentora a datblygiad proffesiynol parhaus, y cod ymddygiad, y cynllun dirprwyo a'r datganiad prif gyfrifoldebau;
- • adolygu dogfennau'r Undeb Myfyrwyr, yn cynnwys y cytundeb perthynas, y memorandwm o gytundeb rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr, a'r Cod Ymarfer Gweithredu'r Undeb Myfyrwyr.

# Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

**Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraeth sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i ystyried a phenderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor a deiliaid uwch swyddi fel y diffinnir yn yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac y cytunwyd gan y Bwrdd. Yn ychwanegol at gydnabyddiaeth ariannol mae cylch gwaith yr Pwyllgor yn cynnwys ystyried trefniadau diswyddo'r Is-Ganghellor a'r holl ddeiliaid uwch swyddi a'r rhai sy'n ennill cyflog sylfaenol o fwy na £100k y flwyddyn.**

Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r wybodaeth feincnodi a'r dystiolaeth berthnasol ynghylch perfformiad deiliaid uwch swyddi yn erbyn amcanion cytunedig, yn ogystal â'r lluosogydd tâl rhwng y deiliaid uwch swyddi a gweddill y gweithlu. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried budd y cyhoedd a diogelu cronfeydd arian cyhoeddus ochr yn ochr â buddiannau'r Brifysgol wrth ystyried yr holl ffurfiau tâl, gwobrwyo neu ddiswyddo deiliaid uwch swyddi.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Ym mis Hydref mae'n ystyried y datganiad polisi tâl blynyddol ac ym mis Mehefin mae'n ystyried cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi h.y. yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor, yn unol â'r arfer flynyddol. Darperir adroddiad ar benderfyniadau'r Pwyllgor i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ariannol wedi mabwysiadu Cod Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (diwygiwyd yn 2021). Nid yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb** Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|
| Professor Sandra Jowett (Cadeirydd) | 3/3 |
| Paul Barlow | 3/3 |
| Dr Leigh Griffin | 3/3 |
| Judy Owen | 1/3 |
| Richard Thomas | 1/3 |
| David Subacchi | 3/3 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

### Gwnaeth y Pwyllgor:

- ystyried y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol a'i argymell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi;
- ystyried adroddiad dan ei 'bolisi ar weithgareddau allanol a chadw taliadau cysylltiedig i ddeiliaid uwch swyddi' hefyd. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid uwch swyddi ofyn am ganiatâd ar gyfer penodiadau blynyddol i sicrhau bod gweithgareddau gwaith allanol yn parhau'n briodol yn wyneb unrhyw newid mewn amgylchiadau i'r unigolyn neu'r Brifysgol a gofyn am gymeradwyaeth i gadw'r taliadau cysylltiedig.
- adolygu ei arferion yn erbyn y Cod diwygiedig (2021) gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a dod i'r casgliad ei fod yn bodloni gofynion y Cod;
- adolygu ei Gylch Gwaith a'i aelodaeth, gan argymell diwygiadau i'r datganiad aelodaeth i'r Bwrdd eu cymeradwyo;
- derbyn diweddariadau am y broses recriwtio Clerc newydd i'r Bwrdd Llywodraethwyr, a gwnaed penodiad newydd ym mis Gorffennaf 2023;
- derbyn diweddariadau ynghylch penodi Dirprwy Is-Ganghellor dros dro, a'r broses recriwtio ar gyfer Dirprwy Is-Ganghellor parhaol.

## Cydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor

Darperir manylion llawn am gydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor yn y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2022/23. Mae'r datganiad polisi tâl hwn yn cyd-fynd â chyhoeddiad y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus Tryloywder Tâl Uwch Swyddogion yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig (2016) ac mae'n cyflawni gofynion Cod Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff (2021) y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion. Monitro perfformiad

Mae cynllun adolygu perfformiad a datblygiad blynyddol yn bodoli ar gyfer yr holl staff, yn cynnwys yr Is-Ganghellor. Mae tri cham i'r broses. Yn gyntaf mae Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod yr Is-Gadeirydd i adolygu amcanion y flwyddyn flaenorol a phennu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod, yna cynhelir adolygiad perfformiad ynghanol y flwyddyn gydag adolygiad terfynol sy'n cael ei lofnodi ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Rhennir amcanion blynyddol yr Is-Ganghellor â'r Bwrdd llawn fel rhan o adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y Pwyllgor.

Mae cynllun adolygu perfformiad a datblygiad blynyddol yn bodoli ar gyfer yr holl staff, yn cynnwys yr Is-Ganghellor. Mae tri cham i'r broses. Yn gyntaf mae Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod yr Is-Gadeirydd i adolygu amcanion y flwyddyn flaenorol a phennu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod, yna cynhelir adolygiad perfformiad ynghanol y flwyddyn gydag adolygiad terfynol sy'n cael ei lofnodi ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Rhennir amcanion blynyddol yr Is-Ganghellor â'r Bwrdd llawn fel rhan o adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y Pwyllgor.

Rhoir amcanion personol i'r Is-Ganghellor hefyd yn ymwneud â'i 'rôl arweinyddiaeth' a'i 'phroffil allanol.'

Yn unol â'r polisi cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi mae Cadeirydd y Bwrdd yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar berfformiad yr Is-Ganghellor yn erbyn yr amcanion cytunedig.

## Y Cyd-destun

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn derbyn adroddiad meincnodi yn flynyddol i hysbysu ei ystyriaethau am gydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor. Yn achos blwyddyn yr adroddiad roedd y wybodaeth yn ymwneud â sefydliadau ôl 92 a sefydliadau bach (gyda throsiant o rhwng £40m a £100m). Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn gwybodaeth am yr effaith y byddai amrediad o gynnydd cyflog canrannol potensial yn ei gael ar gyflog yr Is-Ganghellor o'i gymharu â meincnodau a dyfarniadau cyflog y flwyddyn flaenorol.

Yn ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn ystyried data meincnodi mewnol yn cynnwys: lluosogydd tâl yr Is-Ganghellor i enillion canolrif yr holl staff, y cynnydd canrannol cymedr i'r holl staff eraill, y bylchau cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd a data meincnodi arall a nodir yn fanwl yn natganiad polisi tâl blynyddol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi talu Cyflog Byw y Living Wage Foundation i'w holl staff ers 1 Awst 2018. Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu cynllun bonws.

## Cyflawniadau 2022/23

Arweiniodd yr Is-Ganghellor y Brifysgol i gyflawniadau cadarnhaol yn ystod blwyddyn yr adroddiad, yn nodedig ynghylch recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, parhad datblygiadau Campws 2025, cryfhau'r Gyfadran Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, canlyniadau da yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a'r newid yn nheitl y Brifysgol a'i hailfrandio.

Mae'r Is-Ganghellor yn parhau i gynyddu proffil a rhagolygon y Brifysgol, gyda chefnogaeth y tîm gweithredol ehangach, ac wedi sefydlu'r Brifysgol fel partner dibynadwy yn y rhanbarth y mae pawb yn ymddiried ynddo. Mae'r Is-Ganghellor yn ymgysylltu'n effeithiol mewn rhwydweithiau ar lefel lleol a rhanbarthol, ac mae'n uchel ei pharch ar draws y sector.

Dan y polisi ar weithgareddau allanol a chadw taliadau cysylltiedig i ddeiliaid uwch swyddi ymddiswyddodd yr Is-Ganghellor o'i phenodiad i Gorff Adolygu Tâl Annibynnol Cymru – penodiad cyhoeddus gan y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg – yn ystod blwyddyn yr adroddiad. Nid yw'r Is-Ganghellor yn ymgymryd ag unrhyw waith allanol taledig ar hyn o bryd.

Yng nghyswllt y flwyddyn dan sylw dywedodd yr Is-Ganghellor nad oedd yn dymuno derbyn rhagor na'r cynnydd cyflog a gytunwyd yn genedlaethol a oedd yn berthnasol i'r holl staff.

# Y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau

**Ym mis Mawrth 2017 cytunodd y Bwrdd i sefydlu panel craffu ar ansawdd a safonau i hwyluso craffu ar ddogfennau a dderbyniwyd drwy gydol y flwyddyn ar faterion ansawdd a safonau academaidd, a chynorthwyo'r Bwrdd wrth ystyried materion sicrwydd.**

Yn unol â'r rheolau sefydlog mae gan 'banel' gyfansoddiad llai caeth ac mae'n medru dilyn y weithdrefn sy'n gweddu orau i'w amcanion. Y Llywodraethwyr a oedd yn aelodau'r panel hwn yn ystod 2022/23 oedd:

| |
|---|
| Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd) |
| Dr Leigh Griffin |
| Professor Maria Hinfelaar |
| Lauren Hole |
| Richard Thomas |
| Maureen Wain |

Cymeradwyodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl i Bwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd newydd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 yn lle'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau.

Bydd hwn yn un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd, yn weithredol o 2023/24, a bydd yn darparu rhagor o sicrwydd ar faterion ansawdd a safonau academaidd fel rhan o'r strwythurau Pwyllgorau ffurfiol.



# Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor

**Mae Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor yn mabwysiadu egwyddorion ‘cyfrifoldeb ar y cyd’ trwy gymryd perchnogaeth y nodau ac amcanion corfforaethol a phenderfyniadau’r Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-Ganghellor ac yn gweithredu fframwaith strategol y Brifysgol sy’n gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth y Brifysgol.**

Mae ei gylch gwaith yn cynnwys iechyd ariannol, rheoli adnoddau, mentrau strategol, cynllunio gweithredu, partneriaethau ac effaith allanol a rheoli risgiau. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys yr Uwch Reolwyr hynny sy’n adrodd yn uniongyrchol i’r Is-Ganghellor.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

| Aelodau | **Cofnod Presenoldeb** Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yn gymwys i’w mynychu |
|---|---|
| Professor Maria Hinfelaar (Cadeirydd) | 22/22 |
| Professor Claire Taylor | 13/17 |
| Professor Richard Day | 20/22 |
| Professor Aulay Mackenzie | 19/22 |
| David Elcock | 22/22 |
| Peter Gibbs | 17/22 |
| Lynda Powell | 19/22 |

## Y Bwrdd Llywodraethwyr

Mae'r Is-Ganghellor yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr. Nid yw aelodau eraill Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn aelodau ond maen nhw'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau i gyflwyno adroddiadau a darparu cyngor sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Mae disgrifiad cymeradwy o swyddogaeth swyddogion gweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn bodoli.

Mae'r Is-Ganghellor yn mynychu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Bwrdd i gyflwyno adroddiadau ar berfformiaid deiliaid uwch swyddi sy'n adrodd yn uniongyrchol iddi yn unig, ond nid yw'n aelod o'r pwyllgor.

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Derbyniwyd adroddiadau diweddaru rheolaidd gan aelodau'r Tîm Gweithredol sy'n cwmpasu gweithgareddau datblygu academaidd, partneriaethau a thwf rhyngwladol, rheolaeth ariannol, adnoddau staffio a materion rheoli gweithredol ochr yn ochr â rhannu gwybodaeth ymgysylltu â'r sector a chyfrannu i ymgynghoriadau'r sector a chyflwyno ceisiadau cyllido. Hefyd derbyniodd yr aelodau Gweithredol hyfforddiant a briffiadau ar seiber ddiogelwch a derbyn y Siarter Cydraddoldeb Hil.

Un o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 oedd adolygiad pryderon gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a gomisiynwyd gan CCAUC a chafwyd 12 argymhelliad yn yr adroddiad. Gwnaeth yr aelodau Gweithredol ddatblygu cynllun gweithredu Adolygiad Ansawdd Academaidd i fynd i'r afael â'r argymhellion a gweithredoedd eraill i wella'r rheoliadau academaidd a'u proses dan gylch gwaith y Bwrdd Academaidd.

Materion strategaeth allweddol eraill yr ymdriniwyd â nhw:

- Dechrau ar y gwaith i ddatblygu Gweledigaeth a Strategaeth 2030.
- Bwrw ymlaen gyda phrosiectau Newid Trawsnewidiol 2021/22 i'w cwblhau'n llwyddiannus neu adnabod llwybrau addas i sicrhau cynnydd y prosiectau.
- Paratoi i dderbyn Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil.

# Y Bwrdd Academaidd

**Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am faterion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymchwil, ysgoloriaethau, addysgu a chyrsiau yn y Brifysgol, yn cynnwys y meini prawf derbyn myfyrwyr; penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus; a'r gweithdrefnau gwahardd myfyrwyr am resymau academaidd.**

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ddarostyngedig i ofynion y cyrff dilysu ac achredu. Mae'r Bwrdd Academaidd hefyd yn ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi ac am gynghori'r Is-Ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unol â hynny.

## Aelodaeth a Phresenoldeb 2022/23

- 6 Medi 2022
- 9 Tachwedd 2022
- 15 Tachwedd 2022 (cyfarfod eithriadol)
- 8 Chwefror 2023
- 20 Chwefror 2023 (cyfarfod eithriadol)
- 26 Ebrill 2023 (cyfarfod eithriadol)
- 10 Mai 2023
- 21 Mehefin 2023
- 10 Gorffennaf 2023 (cyfarfod eithriadol)

| | Members | Attendance |
|---|---|---|
| Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr (Cadeirydd) | Professor Maria Hinfelaar | 8/9 |
| Dirprwy Is-Ganghellor (Is-gadeirydd) | Yr Athro Claire Taylor/ Yr Athro Aulay Mackenzie | 9/9 |
| Dirpwy Is-Ganghellor Partneriaethau (Y Deyrnas Unedig a Rhyngwladol) | Yr Athro Aulay Mackenzie | 8/9 |
| Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil | Yr Athro Richard Day | 9/9 |
| Deon Cyfadrannau'r Celfyddyadau, y Gwyddorau a Thechnoleg | Yr Athro Alec Shepley / Dr Stewart Eyres | 8/9 |
| Deon y Cyfadrannau Gwyddorau Bywyd a Gwyddorau Cymdeithasol | Dr Simon Stewart | 6/9 |
| Deoniaid Cyswllt | Yr Athro John Brewer / Yr Athro Alec Shepley | 4/9 |
| | Dr Zheng Chen | 5/9 |
| | Mike Wright | 8/9 |
| | Madi Ruby | 0/9 |
| | Dr Caroline Hughes | 8/9 |
| | Dr Sue Horder | 9/9 |

| | | |
|---|---|---|
| Deoniaid Cyswllt | Yr Athro Mandy Robbins | 6/9 |
| | Dr Neil Pickles | 8/9 |
| Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Lynda Powell | 6/9 |
| Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | James Dawson | 8/9 |
| Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau | Helena Eaton | 7/9 |
| Cynrychiolydd Ymchwil y Celfyddydau, y Gwyddorau a Thechnoleg | Nataliia Luhyna | 5/9 |
| Cynrychiolwyr Ymchwil Gwyddorau Bywyd a Gwyddorau Cymdeithasol | Dr Caro Gorden / Dr Chelsea Batty | 3/9 |
| Staff Addysgu'r Celfyddydau, y Gwyddorau a Thechnoleg | Cerys Alonso | 9/9 |
| Staff Addysgu'r Celfyddydau, y Gwyddorau a Thechnoleg | Dr Karen Heald | 7/9 |
| Staff Addysgu Gwyddorau Bywyd Gwyddorau Cymdeithasol | Jess Achilleos | 5/9 |
| Staff Addysgu Gwyddorau Bywyd Gwyddorau Cymdeithasol | Madeleine Nicholson | 9/9 |
| Staff gweithredol | Lucy Jones | 7/9 |
| Llywydd yr Undeb Myfyrwyr | Lauren Hole | 8/9 |
| Enwebai Llywydd yr Undeb Myfyrwyr | Amy Rowley | 4/9 |
| Aelod cyfetholedig | Elen Mai Nefydd | 5/9 |

## Crynodeb yr eitemau busnes 2022/23

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd Academaidd wedi cyflawni busnes yn unol â'i gyfrifoldebau fel a ganlyn:

- diwygiadau, diweddariadau ac ychwanegiadau i reoliadau academaidd ar draws yr holl feysydd darpariaeth, yn cynnwys y rheoliadau academaidd newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu;
- derbyn ac adolygu amrediad eang o adroddiadau ar faterion ynghylch ansawdd dysgu ac addysgu, yn cynnwys: yr Adroddiad Trosolwg Safonau Blynyddol; Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniadau Myfyrwyr y Brifysgol; adroddiadau ar integriti a chwynion academaidd; canlyniadau myfyrwyr megis canlyniadau gradd, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a Deilliannau Graddedigion; adroddiadau a diweddariadau CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- ystyried a chymeradwyo polisïau newydd neu wedi'i diweddaru sy'n ymwneud ag a/neu'n effeithio ar ddarpariaeth academaidd, er enghraifft, Ymgysylltu â Myfyrwyr o ran Sicrwydd Ansawdd a Chyfoethogi a'r Weithdrefn Amgylchiadau Lleddfu, Integriti Academaidd, Cwynion Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer.
- ystyried a chymeradwyo ystod o ddilysu rhaglenni, ail-ddilysu, diddymu rhaglenni a rhanddirymiad rhaglenni ar draws yr holl feysydd darpariaeth.
- derbyn adroddiadau ar amrywiaeth o faterion eraill sy'n berthnasol i fusnes academaidd y Brifysgol, yn nodweddiadol: diweddariadau a chymeradwyo materion partneriaethau academaidd; diweddariadau gan y Pwyllgor Ymchwil; a'i hysbysu am faterion yn ymwneud â mynediad a chadw myfyrwyr; ac ystyried y Cynllun Gweithredu Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd eithriadol ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ystyried agenda un eitem yn ymwneud â chynlluniau gweithredu Integriti Academaidd a Sicrwydd Ansawdd.

# Rheoli Risgiau a Rheolaeth Fewnol

**Hysbysir sicrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr am effeithiolrwydd y system risgiau a rheolaethau mewnol gan waith uwch reolwyr y Brifysgol, sy'n meddu ar gyfrifoldeb i ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaethau mewnol, trwy eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, sylwadau a wneir gan yr archwilwyr mewnol yn eu hadroddiad blynyddol a'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.**

## Dull y Brifysgol o reoli risgiau'n effeithiol

Mae'r dull o ymdrin â rheoli risgiau wedi'i seilio ar fod yn rhan weithredol o arfer dda arferol a busnes fel arfer, ond gan gydnabod yr angen am a gwerth cael proses glir, unffurf a chydlynus ar draws y Brifysgol ac i hyn gael ei gofnodi a'i ddogfennu'n ffurfiol. Ceir fframwaith risgiau sefydliadol sy'n nodi'r risgiau strategol/corfforaethol, a gefnogir gan gofrestr risgiau gweithredol. Datblygir y gofrestr risgiau corfforaethol gan Fwrdd yr Is-Ganghellor a'i hadolygu a'i chymeradwyo trwy'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r risgiau corfforaethol yn mynd ar draws ystod o feysydd academaidd, proffesiynol a gweithredol ac yn ystyried y Brifysgol fel sefydliad cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gweithredu mewn amgylchedd cyhoeddus a rheoledig.

Mae'r risgiau corfforaethol yn cael eu hadolygu gan yr uwch reolwyr sy'n cael eu penodi'n 'berchennog' risg, ac fe'u hadolygir bob blwyddyn o ran eu priodoldeb; ac yn chwarterol i benderfynu a ydynt yn gyfredol a chydnabod unrhyw newidiadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn nodi: natur y risg, effaith potensial y risg a nodwyd, tebygolrwydd y risg yn cael ei wireddu, 'perchennog' y risg a'r ffactorau lliniaru i reoli'r risg, a rhoir sgôr i hyn cyn ac ar ôl ystyried y camau lliniaru, wrth i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu o gwmpas yr 'ysgogiadau' risg a gwylio'r gorwel.

Mae'r gofrestr risgiau gweithredol yn eistedd ochr yn ochr â'r gofrestr risgiau corfforaethol, gyda'r cyfrifoldeb fel perchnogion risg gyda'r penaethiaid meysydd academaidd a phroffesiynol perthnasol ar draws holl rannau'r Brifysgol, gyda chymorth ymarferol gan yr arweinydd risg yn eu maes arbenigol. Gofynnir i bob maes sicrhau fod risgiau lleol yn cael eu hystyried yn weithredol yn eu strwythurau rheoli ac adrodd, gan esgyn i Fwrdd yr Is-Ganghellor os yw'r sgôr gweddilliol yn uchel neu'n uchel iawn. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn ystyried adroddiad gan ddarparydd archwilio mewnol y Brifysgol, RSM LLP, ar brosesau rheoli risgiau.

Adolygwyd y gofrestr risgiau corfforaethol gan y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tra bo Archwilwyr Mewnol y Brifysgol wedi adnabod meysydd i wella fframwaith rheoli risgiau'r Brifysgol, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr o'r farn fod proses effeithiol a pharhaus wedi bod yn ei lle i nodi, gwerthuso a rheoli prif risgiau'r brifysgol yn ystod cyfnod y

datganiadau ariannol. Mae cynlluniau'n bodoli i roi argymhellion gwella'r Archwilwyr Mewnol ar waith ac mae'r broses rheoli risgiau yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â Pholisi Rheoli Risigau cymeradwy'r Brifysgol.

## Datganiad rheolaeth fewnol

Roedd prif elfennau system rheolaethau mewnol y Grŵp, wedi'u dylunio i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- Diffiniadau clir y cyfrifioldebau, a'r awdurdod wedi'i ddirprwyo i uwch reolwyr a phenaethiaid meysydd academaidd a phroffesiynol;
- Proses gynllunio tymor canolig a thymor byr, wedi'i ategu gan gyllidebau manwl yn nodi'r incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol;
- Adolygu recriwtio myfyrwyr yn rheolaidd ac adolygu'r canlyniadau ariannol yn rheolaidd, yn cynnwys adrodd ar amrywiadau a diweddariadau ar y sefyllfaoedd alldro a ragfynegir;
- Gofynion wedi'u diffinio'n glir a'u ffurfioli i gymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi ynghylch gwariant cyfalaf neu refeniw yn ddarostyngedig i arfarniad ffurfiol manwl ac adolygiad yn unol â'r lefel cymeradwy a bennwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Rheoliadau Ariannol Cynhwysfawr, yn nodi'r rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Darparydd Archwilio Mewnol annibynnol proffesiynol y mae eu rhaglen flynyddol yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio;
- Cysylltu adnabod a rheoli risgiau gyda chyflawni amcanion strategol y Brifysgol trwy'r broses gynllunio;
- Gwerthuso tebygolrwydd ac effaith risgiau'n cael eu gwireddu fel rhan o'r un broses, a sefydlu mesurau lliniaru;
- Gwreiddio rheoli risgiau a phrosesau rheoli mewnol yng ngweithrediad parhaus yr holl adrannau academaidd a gwasanaethau proffesiynol;
- Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ar risgiau a rheolaethau mewnol; ac
- Adroddiadau i'r Bwrdd Llywodraethwyr ar brif ganlyniadau adnabod a gwerthuso risgiau ac adolygu eu rheoli.
- The Audit Committee, on behalf of the Board of Governors, has reviewed the effectiveness of the system of internal control of the University.

  Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y Brifysgol ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr.

## Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cadw at ddarpariaethau'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai 2020) drwy gydol blwyddyn academaidd 2021/22.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai 2020).

## Adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion Cymru (Camm) 2019

Mabwysiadodd y Bwrdd y Siarter Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru ym mis Mai 2020. Mae'r Siarter yn mapio dull o wella llywodraethiant a fabwysiadwyd gan yr holl brifysgolion yng Nghymru i ddangos eu hymrwymiad i ddatblygiad parhaus a gwella llywodraethiant yn eu prifysgolion eu hunain ac yn y sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Roedd y Bwrdd wedi cwblhau'r holl weithredoedd o dan ei reolaeth erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2021/22.

Gwnaeth y Bwrdd barhau i fonitro'r cynnydd yng nghyswllt y cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod 2022/23, gyda'r nod o wella amrywiaeth y Bwrdd ac ymgorffori'r argymhellion yn deillio o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd ynghylch ehangu trosolwg y Bwrdd dros faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fwy cyffredinol.

## Cynefino a Datblygiad Llywodraethwyr

Mae gan y Bwrdd Weithdrefn Cynefino, Mentora a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Lywodraethwyr sy'n esbonio'r broses gynefino a datblygu y gall yr holl lywodraethwyr ei disgwyl ar ôl cael eu penodi, ynghyd â llythyr penodi sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau'n glir.

Nod y broses hon yw sicrhau bod yr holl lywodraethwyr yn cael eu hysbysu am gymeriad addysgol, cyfeiriad strategol a diwylliant y Brifysgol yn ogystal ag agweddau ymarferol bod yn aelod o'r Bwrdd, gan eu helpu i fod yn llywodraethwyr effeithiol gynted ag y bo modd. Mae'r holl lywodraethwyr a ymunodd â'r Bwrdd yn ystod 2022/23 a dechrau 2023/24 wedi cyflawni hyfforddiant cynefino yn unol â gweithdrefn y Bwrdd.

Tynnir sylw'r llywodraethwyr at gyfleoedd datblygu allanol a sesiynau briffio i'r sector gynted ag y ceir y manylion, fel rhan o hyrwyddo eu datblygiad parhaus. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnod datblygu blynyddol lle mae meysydd datblygu a nodwyd yn cael eu trafod gan gydweithwyr yn y Brifysgol neu ddarparwyr allanol.

Ym mis Ionawr 2023 roedd y diwrnod datblygu yn cynnwys diweddariadau ynghylch cyfrifoldebau llywodraethwyr am Lywodraethu Gwybodaeth, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a

Chynhwysiant a'r Siarter Cydraddoldeb Hil.

Cynhaliodd Cadeirydd y Bwrdd gyfarfodydd adolygiad unigol â phob un o'r llywodraethwyr, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar lunio perthynas waith dda. Bydd y Cadeirydd

yn cynnal rhagor o gyfarfodydd unigol â'r llywodraethwyr yn ystod 2023/24.

## Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr

Mae Cod Llywodraethwyr Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu adolygu eu heffeithiolrwydd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Yn ystod 2022 trefnodd y Bwrdd i Advance HE gynnal adolygiad o'r fath, a arweiniodd at gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn deillio o'r adolygiad.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad parhaodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i fonitro'r cynllun gweithredu, cyn i'r cynllun wedi'i gwblhau gael ei lofnodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf 2023. Cafodd llawer o'r gweithredoedd, yn cynnwys cynyddu'r cyfleoedd i lywodraethwyr ymgysylltu â'r brifysgol ehangach, cefnogi proses bontio aelodau newydd y Bwrdd a nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad aelodau'r Bwrdd yn unigol ac ar y cyd, eu mabwysiadu fel arferion parhaus.

Parhaodd y ffocws ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn cynnwys gwella amrywiaeth aelodaeth y Bwrdd, a gweithredu'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda'r gweithgarwch hyn yn parhau yn 2023/24.



# Cyfrifoldebau bwrdd llywodraethwyr y brifysgol yng nghyswllt yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

**Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Telerau ac Amodau Cyllido a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Gyfarwyddeb Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch yn 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd gan Ddedd Addysg Uwch (Cymru) 2015 ac unrhyw ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.**

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu a deddfwriaeth berthnasol yn y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU), yn cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae'r Telerau ac Amodau Cyllido hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol a'r sefyllfa incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddethol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;
- lunio dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad Arferion a Argymhellir ai peidio, yn ddarostyngedig i ddatgelu unrhyw wyriadau perthnasol a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, fel bo'n berthnasol; a
- defnyddio'r sail cyfrifyddu fel busnes gweithredol oni bai ei fod un ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes unrhyw ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu priodol, sy'n ddigonol i ddangos gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, drafodion a sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am reolaethau mewnol y penderfyna sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd camau sy'n rhesymol er mwyn diogelu asedau'r Grŵp ac atal a chanfod twyll ac unrhyw weithgareddau afreolaidd eraill.

## Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod cronfeydd o unrhyw ffynhonnell, a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol, wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth briodol;
- bod incwm, lle bo'n briodol, wedi'i ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 Cod Rheolaeth Ariannol CCAUC;
- y defnyddiwyd grantiau'r Cyngor Cyllido yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol a'u defnyddio ar gyfer y dibenion y'u derbyniwyd, yn cynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido;
- bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn bodoli i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill; a
- rheolaeth economaidd, effeithiol ac effeithlon adnoddau a gwariant Brifysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth ariannol a chorfforaethol a ddangosir ar wefan y Brifysgol, ac uniondeb y manylion hynny. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n llywodraethu paratoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



**Professor Maria Hinfelaar**
Vice-Chancellor and Chief Executive

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i fwrdd llywodraethwyr prifysgol Wrecsam

## Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

### Barn

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Wrecsam ("y Brifysgol") am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023 sy'n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol, Datganiadau Newidiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Brifysgol a Chyfunol, Mantolenni'r Brifysgol a Chyfunol, Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys y Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifyddu.

### Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023, ac incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, yr enillion a'r colledion a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llifau arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddiweddodd;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon, a gyda'r Datganiad Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Cawsom ein penodi'n archwilydd dan Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei ragflaenwyr) ac adroddir yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 y Ddeddf honno.

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol i'r grŵp. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'n barn.

### Busnes gweithredol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp nac i'r Brifysgol roi'r gorau i'w gweithrediadau, a gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu fod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd sylfaenol a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch ei gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes gweithredol").

Wrth werthuso casgliadau'r Bwrdd Llywodraethwyr gwnaethom ystyried y risgiau

cynhenid i fodel busnes y grŵp a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu'r gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

## Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:

- rydym ni'n ystyried bod defnydd y Bwrdd Llywodraethwyr o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau yn briodol;
- nid ydym wedi adnabod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Llywodraethwyr, nad oes ansicrwydd perthnasol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, godi amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Serch hynny, ni allwn ragfynegi'r holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson gyda barn a oedd yn rhesymol ar adeg llunio'r farn, nid yw diffyg cyfeirio at ansicrwydd sylfaenol yn yr adroddiad archwilydd hwn yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

## Twyll a thorri deddfau a rheoliadau – y gallu i ganfod hynny

**Adnabod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll**

Er mwyn adnabod risgiau o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll") gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risgiau yn cynnwys:

- Holi'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio, ac archwilio dogfennau polisi i weld polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, yn cynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddiadol i adnabod unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Cyfathrebwyd risgiau twyll a nodwyd trwy'r tîm archwilio ac roeddynt yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu, rydym ni'n cyflawni gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o reolwyr yn goresgyn rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw yn dwyllodrus, yn enwedig y risg bod incwm o ffioedd dysgu yn perthyn i gyrsiau sy'n mynd y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gallai rheolwyr y Brifysgol fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Cyfathrebwyd risgiau twyll a nodwyd trwy'r tîm archwilio ac roeddynt yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.
Fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu, rydym ni'n cyflawni gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o reolwyr yn goresgyn rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw yn dwyllodrus, yn enwedig y risg bod incwm o ffioedd dysgu yn perthyn i gyrsiau sy'n mynd y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gallai rheolwyr y Brifysgol fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

## Ni wnaethom ni adnabod unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau'n cynnwys:

- Adnabod trafodion yn y llyfr cyfrifon i'w profi ar sail meini prawf risgiau a chymharu'r trafodion a gofnodwyd gyda'r dogfennau cefnogol. Roedd y rhain yn cynnwys trafodion a gofnodwyd gan uwch reolwyr ariannol, rhai o gofnodwyd gan ddefnyddwyr a gofnododd lai na phedwar trafodyn yn ystod y flwyddyn, cofnodion yn nodi arian parod y tu hwnt i'n cyfuniadau disgwyliedig a chofnodion â llaw yn nodi arian parod ar ôl 31 Gorffennaf 2022.
- Asesu a oedd trafodion refeniw ffioedd dysgu y naill ochr i ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi'u cofnodi yn y cyfnod cywir.

## Adnabod ac ymateb i risgiau camddatganiadau perthnasol oherwydd diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau

Gwnaethom adnabod meysydd mewn deddfau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith perthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad yn y sector, a thrwy drafodaethau â'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli fel arall (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio), a thrafod â'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli polisïau a gweithdrefnau i gydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Gwnaethom gyfathrebu deddfau a rheoliadau a nodwyd trwy'r tîm ac roeddynt yn cadw llygad am unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith potensial y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys deddfwriaeth adrodd yn ariannol, deddfwriaeth pensiynau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, deddfwriaeth a rheoliadau elusennau a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ynghylch yr eitemau datganiadau ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfio gael effaith perthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, trwy gael dirwyon neu gyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau arwyddocaol. Gwnaethom adnabod y meysydd a ganlyn fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddio Addysg Uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Brifysgol. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i adnabod diffyg cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddio a chyfreithiol, os oedd gohebiaeth o'r fath. Felly, os nad yw torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y torri rheolau.

## Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri deddfau neu reoliadau

Yn sgîl cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na ellir ei osgoi efallai na wnaethom ni ganfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod ni wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio.

Er enghraifft, y pellaf yw'r diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau oddi wrth y

digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig cynhenid sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn eu hadnabod.

Yn ychwanegol, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd risg uchel yn parhau o ddiffyg canfod twyll, gan y gallent gynnwys cydweithio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camsylwadau neu oresgyn rheolaethau mewnol. Dyluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ganfod camddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheoliadau.

## Gwybodaeth arall

Y Bwrdd Llywodraethwyr (y mae'r aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion deddfwriaeth elusennau) sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr, Adolygiad yr Is-Ganghellor o Flwyddyn yr Adroddiad, Adroddiad y Flwyddyn Ariannol 2022/23, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym ni'n mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sicrwydd amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, nodi unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau o bwys ar sail ein gwaith archwilio'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth wrth gynnal yr archwiliad. Mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os:

- yr sail y gwaith hwnnw'n unig, ein bod wedi adnabod camddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall; ac
- yn ein barn ni, bod y wybodaeth a roir yn Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr, Adolygiad yr Is-Ganghellor o Flwyddyn yr Adroddiad, Adroddiad y Flwyddyn Ariannol 2022/23, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus (sydd ar y cyd yn llunio Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol) yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ni unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt fel eithriad

Dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ni unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn ei ddatganiad ar dudalen 48, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; bod y rheolaethau mewnol y penderfynir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatgan o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel bo'n briodol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol; a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod un ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd

Ein hamcanion ni yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys lle bo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod o bwys os y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol - www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## Adroddiad ar ofynion cyfreithriol a rheoleiddiol eraill

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion isod a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') (yn effeithiol o 1 Awst 2017) a gyhoeddwyd dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Gyfarwyddeb Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC ('y Gyfarwyddeb Cyfrifon').

## Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;

- mae incwm, lle bo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 Cod Rheolaeth Ariannol CCAUC;

- mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi eu cymhwyso yn unol â'u telerau ac amodau a'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd, yn cynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido 2022/23; ac

- y bodlonwyd Cyfarwyddeb Cyfrifon CCAUC.

## Diben ein gwaith archwilio ac i bwy rydym ni'n atebol

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unig, yn unol ag Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol ac Adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 ac yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenydd) a rheoliadau a wnaed dan Adran 154 y Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan wrth y Bwrdd Llywodraethwyr am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ddatgan arnynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Brifysgol a'r Bwrdd Llywodraethwyr am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn neu'r farn a ffurfiwyd gennym ni, i'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith. and for no other purpose.

To the fullest extent permitted by law, we do not accept or assume responsibility to anyone other than the University and the Board of Governors for our audit work, for this report, or for the opinions we have formed.

### Debra Chamberlain

**ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol**
Cyfrifwyr Siartredig

Mae'r Archwilwyr Siartredig KPMG LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd dan delerau adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006

1 St Peter's Square
Manchester
M2 3AE

**Dyddiad: 30 Tachwedd 2023**

# Cyfrifon ariannol

## Datganiad y prif bolisïau cyfrifyddu

### Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102), sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol o ran FRS 102. Lle bo'n berthnasol mae'r datganiadau ariannol yn cadw at gyfarwyddebau cyfrifyddu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

### Busnes gweithredol

Nodir gweithgareddau'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, ei berfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol. Mae'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y sefydliad, ei lifau arian, ei sefyllfa hylifedd a'i gyfleusterau benthyca.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol y mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ei ystyried yn briodol am y rhesymau a ganlyn.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi rhagfynegiadau llif arian am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagfynegiadau hyn mae'r Corff Llywodraethu o'r farn, gan ystyried y dirywiadau difrifol rhesymol, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol gyllid digonol i fodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus yn ystod y cyfnod 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r busnes gweithredol).

Wrth ddod i'r farn hon am gynaliadwyedd ariannol y sefydliad, ystyriwyd y ffactorau a ganlyn:

### Ariannol

- monitro perfformiad yn rheolaidd trwy adroddiadau misol, cyllidebau blynyddol a rhagfynegiadau ariannol blynyddol, yn cynnwys cyflwyno rhagfynegiadau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig a chydymffurfio â chyfamodau ariannol ein benthycwr.
- strategaeth llif arian sy'n cyd-fynd â'r drefn gyllido ac sy'n ystyried llanw a thrai'r gylchred gyllido.

### Anariannol

- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig.
- cadw Cofrestr Risgiau sy'n ystyried y risgiau strategol ariannol ac anariannol.
- parhau i ddarparu swyddogaethau llywodraethu a chyfreithiol sy'n cwmpasu'r holl gydymffurfio ariannol, statudol a rheoleiddiol.

Cwblhawyd modelu llif arian trwyadl a phrofi senarios a ddangosodd bod Grŵp y Brifysgol yn dal cronfeydd arian parod digonol i gyllido costau'r gweithgarwch yn y dyfodol rhagweladwy. Mae costau'n cynyddu wedi cael eu hystyried wrth brofi senarios ac ni nodwyd

unrhyw broblemau na ellir eu lliniaru. Mae'r cynnydd yn y cronfeydd arian parod wrth gefn yn ddigonol i fodloni paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

O ganlyniad, mae'r Corff Llywodraethu yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol gyllid digonol i barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

## Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn costau hanesyddol, wedi'i addasu gan y gost dybiedig ar gyfer rhai asedau sefydlog fel y cawsant eu hailbrisio gyda chyflwyno adrodd ar sail FRS102.

## Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023. Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cyfunol o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant yr Undeb Myfyrwyr gan nad oedd gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad tra-arglwyddiaethol dros benderfyniadau polisi.

Darperir manylion am drafodion is-gwmnïau'r Brifysgol yn nodyn 23 yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

## Cydnabod incwm

Dangosir grantiau bloc y Cyngor Cyllido yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau'n cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r cytundeb wedi'u bodloni. Cydnabyddir dyledwr pan fod hawl diamod i dderbyn budd economaidd yn y dyfodol yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol. Yn unol â'r polisi hwn, pan fydd cyrsiau'n cael eu darparu mewn modd sy'n croesi diwedd y flwyddyn ariannol, mae incwm sy'n gysylltiedig â'r cyfnod yn y dyfodol yn cael ei ohirio i gydnabod credydwr incwm gohiriedig. Mae unrhyw falans dyledwyr sy'n weddill yn parhau i gael ei gofnodi dan ddyledwyr.

Mae'r incwm ffioedd yn cael ei ddatgan ar sail gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, a'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi dysgu wedi'i leihau, trwy ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm a dderbynnir yn net o'r disgownt. Cyfrifyddir am ysgoloriaethau a bwrsarïau ar sail gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o'r incwm.

## Cyllid Grant gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail croniadau a'u cynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod ar y fantolen fel rhwymedigaethau.

## Grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth

Mae grantiau un tro yn unig a dderbynnir ar gyfer caffael neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf wedi'u gohirio. Mae grantiau o'r fath yn cael eu credydu i grantiau cyfalaf wedi'u gohirio a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol yr

ased, ar yr un gyfradd â dibrisiant yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

## Cyllid grant nad yw gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd yn deillio o grantiau, cytundebau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail perfformiad ac yn cael ei gynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod yn y Datganiad y Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaethau.

## Rhoddion a Gwaddolion

Mae trafodion dim cyfnewid heb amodau yn gysylltiedig â pherfformiad yn rhoddion neu gyfraniadau a gwaddolion. Cydnabyddir cyfraniadau a gwaddolion gyda chyfyngiadau wedi'u nodi gan y rhoddwr yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian. Cedwir yr incwm mewn cronfa wrth gefn gyfyngedig nes ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, a bryd hynny mae'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd cyffredinol trwy drosglwyddiad cronfa wrth gefn.

Mae cyfraniadau heb gyfyngiadau'n cael eu cydnabod yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian.

Cofnodir incwm buddsoddi ac elw gwaddolion yn yr incwm yn y flwyddyn y cyfyd, ac un ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn unol â thelerau cyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r gronfa waddol unigol.

Nodir pedwar prif fath o gyfraniadau a gwaddolion yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Cyfraniadau wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid i'r cyfraniad gael ei ddefnyddio at amcan penodol.

2. Gwaddolion parhaol heb eu cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion gwariadwy wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol yn hytrach na phrynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.

4. Gwaddolion parhaol wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

## Trefniadau asiantaeth

Mae cronfeydd mae'r Brifysgol yn eu derbyn a'u dosbarthu fel asiant talu ar ran cyrff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn wynebu risg isel iawn neu'n cael budd economaidd bach iawn yn gysylltiedig â'r trafodion.

Gwnaeth y Brifysgol ymrwymo i gytundeb asiantaeth o ran darparu gwasanaethau arlwyo yng nghampws Plas Coch yn ystod 2017/18, ac mae'r cytundeb yn parhau. Mae'r holl incwm a gwariant cysylltiedig wedi'i gynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol gan fod y Brifysgol yn cadw risgiau neu fuddion y gweithgarwch dan y cytundeb asiantaeth hwn.

## Lesau a chytundebau hur brynu

Codir y costau'n gysylltiedig â lesau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Mae lesau cyllido, sy'n trosglwyddo holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased yn sylweddol i'r Brifysgol, yn cael eu trin fel petai'r ased wedi'i brynu'n gyfangwbl. Cynhwysir yr asedau yn yr asedau sefydlog a dangosir elfennau cyfalaf yr ymrwymiadau les fel ymrwymiadau dan lesau cyllido.

Mae'r eitemau rhentu les yn cael eu trin fel rhai sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymiadau sy'n ddyledus, a chodir yr elfen llog yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihaol sy'n weddill.

Mae asedau dan les cyllido yn cael eu dibrisio dros y cyfnod byrraf o un ai gyfnod y les neu oes economaidd defnyddiol asedau cyfatebol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Mae lesio ased dan les cyllido (Parc y Glowyr) yn cael ei drin fel dyledwr tymor byr a thymor hir yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymiadau dyledwr sy'n ddyledus, a chofnodir yr elfen llog fel incwm yn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihaol sy'n weddill

## Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig yn unol ag ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol ag ystyr Paragraff 1 atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac, yn unol â hynny, mae potensial i'r Brifysgol gael ei heithrio rhag Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig o ran incwm neu enillion cyfalaf yn y categorïau a gwmpasir gan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 neu adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau fod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i dalu treth gorfforaeth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriadau o'r fath o ran Treth ar Werth. Mae Treth ar Werth na ellir ei adennill ar fewnbynnau yn cael ei gynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath. Mae unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei adfer a ddyrennir i asedau sefydlog diriaethol yn cael ei chynnwys yn eu cost.

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i Dreth ar Werth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol arall, ac eithrio unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan is-gwmni prifysgol sy'n ddarpariaeth addysg sy'n cael ei eithrio.

## Asedau diriaethol sefydlog

Nodir asedau sefydlog ar eu cost tybiedig llai dibrisiant cronnus a cholledion diffygiant cronnus. Mae rhai eitemau penodol asedau sefydlog a gafodd eu hailbrisio i brisiant teg ar neu cyn y dyddiad trosglwyddo i Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir: Addysg Uwch ac Addysg Bellach 2015 yn cael eu mesur ar sail cost tybiedig, sef y swm ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisio hwnnw.

Lle bo gan rannau ased sefydlog hyd oes defnyddiol gwahanol, fe'u cyfrifyddir fel eitemau ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio dros eu cyfnod oes economaidd defnyddiol disgwyliedig o 50 mlynedd. Dibrisir y cae hoci dros ei oes defnyddiol disgwyliedig o 10 mlynedd. Mae gwariant cyfalaf sy'n berthnasol i adeiladau sy'n bodoli eisoes yn cael ei ddibrisio dros eu hamcangyfrif oes defnyddiol o 10 mlynedd.

Lle bo adeiladau'n cael eu caffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth maent yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio fel uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwyliedig yr ased perthnasol ar sail sy'n gyson gyda'r polisi dibrisio.

Mae gosodiadau, ffitiadau ac offer sy'n costio llai na £10,000 am bob eitem unigol yn cael eu dileu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl osodiadau, ffitiadau ac offer

arall yn cael eu cyfalafu ar sail y gost. Mae cerbydau modur yn cael eu cyfalafu ar sail eu cost.

Mae'r holl asedau'n cael eu dibrisio dros amcangyfrif eu hoes economaidd defnyddiol, fel a ganlyn:

- Gosodiadau, ffitiadau a coffer – pum mlynedd
- Cerbydau modur – tair blynedd

Lle bo offer yn cael ei gaffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth mae'n cael ei gyfalafu a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod, gyda'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwyliedig yr offer perthnasol. Polisi'r Brifysgol yw peidio ag ailbrisio'r dosbarth asedau hwn.

Mae offer a geir ar gyfer prosiect wedi'i gyllido'n benodol yn cael ei ddibrisio dros ei hyd oes defnyddiol disgwyliedig, sy'n cyfateb i gyfnod y prosiect yn arferol.

Cynhelir adolygiad amhariad ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai nad yw swm cyfredol yr ased sefydlog yn adferadwy.

Mae unrhyw amhariadau oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn digwydd.

Mae unrhyw ailbrisio ar i lawr nad yw oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael ei gydnabod yn y datganiad cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr hefyd yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gwariant i sicrhau bod ased sefydlog diriaethol yn cynnal ei safon perfformiad blaenorol yn cael ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gan y Brifysgol raglen cynnal a chadw cynlluniedig, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol.

## Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar eu cost tybiedig llai dibrisiant cronnus a cholledion amhariad cronnus. Mae asedau anniriaethol yn cael eu dibrisio dros uchafswm o 10 mlynedd

## Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau a restrir a gedwir fel asedau gwaddol ar werth y farchnad. Dangosir buddsoddiadau mewn gweithgareddau is-gwmni ac endidau heb eu rhestru ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Cynhwysir buddsoddiadau asedau cyfredol ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

## Stoc

Mae stoc yn cael ei ddatgan ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

## Arian parod ar hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae llifau arian yn cynnwys cynnydd neu leihad mewn arian mewn llaw, arian yn y banc ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt, yn ymarferol, ar gael cyn pen 24 awr heb gosbau. Nid oes unrhyw fuddsoddiadau eraill, waeth pa mor hylifol ydynt, yn cael eu cynnwys fel arian parod.

Mae adnoddau hylifol yn cynnwys symiau wedi eu hadneuo yn y tymor byr gyda banciau cydnabyddedig. Maent yn cynnwys unrhyw asedau o'r fath sy'n cael eu cadw fel asedau gwaddol.

Defnyddiwyd yr eithriad o'r gofyniad i baratoi datganiad llif arian ar wahân ar gyfer y Brifysgol dan Safon Adrodd Ariannol 102.

## Trosi arian tramor

Mae asedau a rhwymedigaethau a nodir mewn arian tramor yn cael eu trosi i gyfrwng arian y grŵp (Sterling) ar y cyfraddau cyfnewid sy'n berthnasol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny yn cael eu nodi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn codi.

## Offerynnau ariannol

## Rheoli Risgiau

Prif offerynnau ariannol y Brifysgol yw arian parod, buddsoddiadau a benthyciadau. Amcan craidd yr offerynnau ariannol hyn yw bodloni anghenion cyllido gweithrediadau'r Brifysgol. Yn ychwanegol, mae gan y Brifysgol asedau ac atebolrwyddau ariannol eraill sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau h.y. dyledwyr a chredydwyr masnach.

Rydym ni wedi asesu effaith potensial Brexit ar y sefydliad ar hyn o bryd, ac ystyrir nad oes unrhyw effaith perthnasol na risg arwyddocaol i'r sefyliad fel busnes gweithredol.

## Risg Credyd

Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd gwrthbarti'n methu â chadw at ei ymrwymiadau cytundebol gan arwain at golled ariannol i'r Brifysgol.

Adolygir dyledwyr masnachol a dyledion myfyrwyr yn barhaus a gwneir darpariaeth dyled ddrwg os yw adfer y ddyled yn dod yn ansicr. Os penderfynir bod dyled yn anadferadwy mae'r ddyled yn cael ei dileu. Mae crynodiad y risg yn gyfyngedig oherwydd y nifer fawr o gwsmeriaid amrywiol ar draws y poblogaethau myfyrwyr a chwsmeriaid masnachol.

## Risg hylifedd

Mae risg hylifedd yn cyfeirio at y risg na fydd y Brifysgol yn medru talu ei hymrwymiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae monitro risg hylifedd yn rheolaidd yn nodwedd hanfodol gweithgareddau rheolaeth trysorlys.

Mae rhagfynegiadau llif arian yn ffurfio rhan o broses cynllun 5 mlynedd y Brifysgol, ac fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae risg arian tramor yn cyfeirio at y risg y gallai newid anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid achosi colled ariannol i'r Brifysgol. Y prif arian tramor y mae'r Brifysgol yn dod i gysylltiad ag ef yw'r Ewro. Adolygir lefel gweithredu Ewros yn rheolaidd i liniaru'r risg o newidiadau cyfradd cyfnewid andwyol.

**Cyfrifyddu buddion ymddeol Y tri phrif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw:**

1. Y Cynllun Pensiwn Athrawon
2. Y Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion
3. Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r holl gynlluniau yn gynlluniau buddion diffiniedig sy'n cael eu rheoli'n allanol ac wedi contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Wrecsam yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae'r cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu nodi ar y cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion

gyda'r Brifysgol yn y fath fodd fel bod y cost pensiwn yn ganran cyson ar y cyfan o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol ac yn y dyfodol. Mae amrywiadau i'r costau rheolaidd yn cael eu lledaenu ar draws hyd oes gwaith cyfartalog sy'n weddill aelodau'r cynllun, ar ôl caniatáu ar gyfer rhagor o dynnu allan.

Penderfynir ar y cyfraniadau gan actiwariaid cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd, gan ddefnyddio'r dull uned dafluniedig. Ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Wrecsam yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae gwarged neu ddiffyg y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gydnabod fel ased neu atebolrwydd ar y fantolen. Cofnodir cost y rhai sy'n gwasanaethu'n gyfredol a chostau gwasanaeth blaenorol yn y costau staff.

Cyfrifir yr elfen llog ar sail diffyg diwedd y flwyddyn (atebolrwydd net) wedi'i luosi gyda'r gyfradd ddisgownt. Mae'r holl newidiadau yn y gwarged neu'r diffyg pensiwn oherwydd newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd neu'r gwahaniaeth rhwng rhagfynegiadau actiwaraidd a'r alldro go iawn yn cael eu hadrodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cofnodir rhwymedigaeth yn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i gyllido diffygion yn y gorffennol yn Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion.

## Darpariaethau, atebolrwyddau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

**Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol dan yr amgylchiadau isod:**

a) pan fo'r Brifysgol yn wynebu ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol

b) ei bod yn debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r ymrwymiad; a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ynghylch swm yr ymrwymiad.

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ynghylch swm yr ymrwymiad.

Mae'r swm a nodir fel darpariaeth yn cael ei leihau i'r gwerth presennol lle bo gwerth amser arian yn berthnasol.

Mae atebolrwydd digwyddiadol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi ymrwymiad posibl i'r Brifysgol y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol. Mae atebolrwyddau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth wedi'i gwneud fel arall ond un ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu ni ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Cyfyd ased digwyddiadol pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased tebygol i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol.

Nid yw asedau ac atebolrwyddau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond fe'u datgelir trwy gyfrwng nodyn.

## Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Defnyddiwyd y barnau a'r amcangyfrifon allweddol isod wrth lunio'r datganiadau ariannol hyn.

- Defnyddiwyd barnau cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn Blwydd-dal y Prifysgolion gan ddefnyddio pecyn modelu safonol y Cynllun ar gyfradd disgownt sy'n cyd-fynd â chanllawiau BUFDG ac yn unol â disgwyliadau cynnydd yn y nifer ar y gyflogres gan y Brifysgol yn y dyfodol.
- Darparwyd barnau cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan actiwariaid y cynllun, Mercers.

## Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dynodi fel rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i Grŵp y Brifysgol, yn cael eu cadw fel cronfa wedi'i chyfyngu'n barhaol y mae'n rhaid i'r Grŵp ei chadw am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau ble mae'r rhoddwr wedi penodi pwrpas penodol ac felly mae'r Grŵp wedi'i gyfyngu o ran defnydd y cronfeydd hyn.



# Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol

## Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

| | Nodiadau | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | 37,129 | 37,129 | 33,112 | 33,112 |
| Grantiau gan gyrff cyllido | 2 | 5,567 | 5,567 | 6,825 | 6,825 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | 700 | 700 | 1,543 | 1,543 |
| Incwm arall | 4 | 7,011 | 5,624 | 5,599 | 3,170 |
| Incwm buddsoddi | 5 | 382 | 382 | 126 | 126 |
| Rhoddion a gwaddolion | 6 | 110 | 110 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm incwm** | | **50,899** | **49,512** | **47,206** | **44,777** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff | 7 | 23,259 | 22,008 | 21,150 | 19,715 |
| Costau pensiwn eraill | 7 | 2,130 | 2,013 | 2,182 | 2,030 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 7 | 2,521 | 2,521 | 3,797 | 3,797 |
| Costau gweithredol eraill | 9 | 22,099 | 21,709 | 18,243 | 17,400 |
| Dibrisiant | 12 | 2,702 | 2,596 | 2,779 | 2,677 |
| Amhariad dyledion rhyng-gwmni | 14 | - | 1,582 | - | 1,528 |
| Llog a chostau cyllido eraill | 8 | 407 | 407 | 818 | 818 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **53,118** | **52,837** | **48,969** | **47,965** |
| **(Diffyg)/Gwarged cyn enillion/(colledion) eraill** | | **(2,219)** | **(3,325)** | **(1,763)** | **(3,188)** |
| Elw ar waredu ased sefydlog | 12 | 17 | 17 | 5,999 | 5,999 |
| Elw ar waredu dyledwr tymor hir | 17 | - | - | 642 | 642 |
| **(Diffyg)/Gwarged cyn treth** | | **(2,202)** | **(3,308)** | **4,878** | **3,453** |
| Trethiant | 10 | 50 | 50 | 40 | 40 |
| **(Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn** | | **(2,252)** | **(3,358)** | **4,838** | **3,413** |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | | | |
| Enillion actiwaraidd o ran y cynlluniau | 23 | 12,151 | 12,151 | 25,527 | 25,527 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **9,899** | **8,793** | **30,365** | **28,940** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | | 586 | 106 | - | - |
| Incwm cynhwysafwr anghyfyngedig am y flwyddyn | | 9,313 | 8,687 | 30,365 | 28,940 |
| | | **9,899** | **8,793** | **30,365** | **28,940** |
| I'w briodoli i Grŵp y Brifysgol | | **9,899** | **8,793** | **30,365** | **28,940** |
| **(Diffyg)Gwarged am y flwyddn i'w briodoli i** Grŵp y Brifysgol | | (2,252) | (3,358) | 4,838 | 3,413 |

Mae'r holl eitemau incwm a gwaria nt yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau

## Datganiad y Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn y Brifysgol a Chyfunol

### Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

**Cyfunol**

| | *Cyfyngedig* £'000 | *Anghyfyngedig* £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans 1 Awst 2021** | **200** | **20,138** | **20,338** |
| Gwarged/(Diffygt) o'r datganiad incwm a gwariant | - | 4,838 | **4,838** |
| Enillion actiwaraidd y cynllun pensiwn | - | 25,527 | **25,527** |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | - | - | **-** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | **-** | **30,365** | **30,365** |
| **Balans 1 Awst 2022** | **200** | **50,503** | **50,703** |
| Gwarged/(Diffygt) o'r datganiad incwm a gwariant | 97 | (2,349) | **(2,252)** |
| Addasiad ar gyfer balansau cyfyngedig mewn is-gwmni | 474 | (474) | **-** |
| Enillion actiwaraidd y cynllun pensiwn | - | 12,151 | **12,151** |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | 15 | (15) | **-** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | **586** | **9,313** | **9,899** |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **786** | **59,816** | **60,602** |

**Y Brifysgol**

| | *Cyfyngedig* £'000 | *Anghyfyngedig* £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Awst 2021** | **200** | **21,298** | **21,498** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | - | 3,413 | **3,413** |
| Cymorth Rhodd a dderbyniwyd | - | 29 | **29** |
| Enillion actiwaraidd y cynllun pensiwn | - | 25,527 | **25,527** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | - | **28,969** | **28,969** |
| **Balans ar 1 Awst 2022** | **200** | **50,267** | **50,467** |
| Gwarged/(Diffygt) o'r datganiad incwm a gwariant | 106 | (3,464) | **(3,358)** |
| Cymorth Rhodd a dderbyniwyd | - | 29 | **29** |
| Enillion actiwaraidd y cynllun pensiwn | - | 12,151 | **12,151** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | **106** | **8,716** | **8,822** |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **306** | **58,983** | **59,289** |

# Datganiad Sefyllfa Ariannol y Brifysgol a Chyfunol

## ar 31 Gorffennaf 2023

| | Nodiadau | 2023 Cyfunol £'000 | 2023 Y Brifysgol £'000 | 2022 Cyfunol £'000 | 2022 Y Brifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | 252 | 252 | - | - |
| Asedau sefydlog | 12 | 65,138 | 62,888 | 64,216 | 61,883 |
| | | 65,390 | 63,140 | 64,216 | 61,883 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 13 | 27 | 9 | 33 | 9 |
| Derbynion masnach ac eraill: symiau fydd yn ddyledus cyn pen blwyddyn | 14 | 8,875 | 8,011 | 6,086 | 6,616 |
| Buddsoddiadau | 15 | - | - | 5,000 | 5,000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 20 | 26,971 | 26,798 | 17,992 | 17,172 |
| | | 35,873 | 34,818 | 29,111 | 28,797 |
| Llai: Symiau fydd yn ddyledus i gredydwyr cyn pen blwyddyn | 16 | (27,025) | (26,828) | (17,099) | (16,483) |
| **Asedau cyfredol net** | | 8,848 | 7,990 | 12,012 | 12,314 |
| **Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | 74,238 | 71,130 | 76,228 | 74,197 |
| Debrynion masnach ac eraill: symiau fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 17 | 302 | 302 | 302 | 302 |
| Credydwyr: symiau fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | (11,493) | (9,698) | (11,576) | (9,781) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | 19 | (2,009) | (2,009) | (13,490) | (13,490) |
| Darpariaethau eraill | 19 | (436) | (436) | (761) | (761) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **60,602** | **59,289** | **50,703** | **50,467** |
| **Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant – cronfa wrth gefn gyfyngedig | 21 | 786 | 306 | 200 | 200 |
| **Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant – anghyfyngedig | | 59,816 | 58,983 | 50,503 | 50,267 |
| | | **60,602** | **59,289** | **50,703** | **50,467** |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **60,602** | **59,289** | **50,703** | **50,467** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Llywodraethwyr ar 24 Tachwedd 2023 a'u llofnodi ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

**Dr Leigh Griffin**
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

**Yr Athro Maria Hinfelaar**
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

# Datganiad Llifau Arian Cyfunol

## ar 31 Gorffennaf 2023

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | |
| Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn | **(2,252)** | **4,838** |
| **Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant | 2,702 | 2,779 |
| Lleihad yn y stoc | 6 | (5) |
| Lleihad yn y dyledwyr < 1 flwyddyn | (2,789) | (970) |
| Lleihad yn y dyledwyr > 1 flwyddyn | - | 1 |
| Cynnydd/(Lleihad) yn y credydwyr < 1 flwyddyn | 9,843 | 3,039 |
| Cynnydd/(Lleihad) yn y credydwyr > 1 flwyddyn | - | - |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth bensiynau | 670 | 2,468 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn darpariaethau eraill | (325) | (45) |
| **Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido** | | |
| Incwm buddsoddi | (382) | (126) |
| Llog sy'n daladwy | 40 | 284 |
| Elfen llog les cyllido | - | 1 |
| Colled/(Elwt) gwerthu asedau sefydlog | (17) | (5,999) |
| Colled/(Elw) gwerthu dyledwr tymor hir | - | (642) |
| Incwm o grantiau cyfalaf | (1,324) | (1,672) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | **6,172** | **3,951** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Derbynion grantiau cyfalaf | 1,324 | 1,828 |
| Incwm buddsoddi | 382 | 126 |
| Gwaredu ased sefydlog | 17 | 9,291 |
| Gwaredu dyledwr tymor hir | - | 1,991 |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | (3,876) | (2,835) |
| Adneuon newydd | 5,000 | (5,000) |
| **Mewnlif/(All-lif) arian parod net o weithgaerddau buddsoddi** | **2,847** | **5,401** |
| **Llifau arian o weithgareddau cyllido** | | |
| Llog a dalwyd | (40) | (284) |
| Elfen llog y les cyllido | - | (1) |
| Ad-daliadau'r symiau a fenthycwyd | - | (8,875) |
| Elfen gyfalaf y les cyllido | - | (20) |
| **All-lif llif arian net o weithgareddau cyllido** | **(40)** | **(9,180)** |
| **Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | **8,979** | **172** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **17,992** | **17,820** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Gorffennaf 2023 | **26,971** | **17,992** |

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| **1** | **Ffioedd dysgu a chontractau addysg** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Myfyrwyr llawn amser o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd | 14,057 | 14,057 | 15,600 | 15,600 |
| | Myfyrwyr llawn amser rhyngwladol | 15,262 | 15,262 | 10,597 | 10,597 |
| | My[fyrwyr rhan-amser | 3,914 | 3,914 | 4,658 | 4,658 |
| | Contractau Academaidd | 3,896 | 3,896 | 2,257 | 2,257 |
| | | **37,129** | **37,129** | **33,112** | **33,112** |

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **Grantiau gan gyrff cyllido** | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | **Grantiau rheolaidd** | | | | |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | 2,339 | 2,339 | 2,348 | 2,348 |
| | **Grantiau penodol** | | | | |
| | Cyllido Addysg Uwch – arall | 1,530 | 1,530 | 2,775 | 2,775 |
| | Cyllido Addysg Uwch – Gradd brentisiaethau | 404 | 404 | 534 | 534 |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch – Ymchwil o Ansawdd | 244 | 244 | 279 | 279 |
| | Grant cyfalaf — Adeiladau | 466 | 466 | 321 | 321 |
| | Offer | 584 | 584 | 568 | 568 |
| | | **5,567** | **5,567** | **6,825** | **6,825** |

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| **3** | **Grantiau a chontractau ymchwil** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Cynghorau ymchwil | 1 | 1 | 1 | 1 |
| | Elusenau ymchwil | 19 | 19 | 75 | 75 |
| | Llywodraeth (Y DU a thramor) | 627 | 627 | 1,433 | 1,433 |
| | Diwydiant a masnach | 53 | 53 | 34 | 34 |
| | | **700** | **700** | **1,543** | **1,543** |

Mae'r incwm gan Lywodraeth (Y DU a thramor) yn cynnwys £0in o grantiau cyfalaf a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn (2021/22: £546k)

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| **4** | **Incwm arall** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 2,519 | 2,519 | 1,979 | 1,744 |
| | Grantiau cyfalaf eraill | 274 | 183 | 783 | 146 |
| | Grant y Cynllun Cadw Swyddi | - | - | 1 | 1 |
| | Incwm arall | 4,218 | 2,922 | 2,836 | 1,279 |
| | | **7,011** | **5,624** | **5,599** | **3,170** |

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| **5** | **Incwm buddsoddi** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Incwm buddsoddi y les cyllido | - | - | 121 | 121 |
| | Incwm buddsoddi arall | 382 | 382 | 5 | 5 |
| | | **382** | **382** | **126** | **126** |

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| **6** | **Rhoddion a gwaddolion** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Rhoddion | 110 | 110 | 1 | 1 |
| | | **110** | **110** | **1** | **1** |

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Y Brifysgol | Cyfunol | Y Brifysgol |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **7 Costau staff** | | | | |
| Costau staff : | | | | |
| Cyflogau | 20,935 | 19,837 | 19,020 | 17,724 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,105 | 2,006 | 1,875 | 1,761 |
| Costau dileu swydd | 219 | 165 | 255 | 230 |
| **Costau staff** | **23,259** | **22,008** | **21,150** | **19,715** |
| Costau pensiwn eraill | 2,130 | 2,013 | 2,182 | 2,030 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr y CPLIL | 2,042 | 2,042 | 1,848 | 1,848 |
| Costau gwasanaeth cyfredol y CPLIL | 479 | 479 | 1,949 | 1,949 |
| **Costau pensiynau** | **4,651** | **4,534** | **5,979** | **5,827** |
| **Cyfanswm costau staff** | **27,910** | **26,542** | **27,129** | **25,542** |

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

### 7 Costau staff (parhad)

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| **Enillion yr Is-Ganghellor:** | £ | £ |
| Cyflog | 211,851 | 206,654 |
| **Cyanswm enillion ac eithrio cyfraniadau pensiwn** | **211,851** | **206,654** |
| Cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Athrawon | 16,722 | 48,936 |
| **Cyfanswm enillion yn cynnwys cyfraniadau pensiwn** | **228,573** | **255,590** |

Talwyd yr enillioni'r Is-Ganghellor, Yr Athro Maria Hinfelaar, sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth ariannol yn unol â thelerau ei chytundeb.

Mabwysiadodd y corff llywodraethu God Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n asesu tâl uwch staff yn unol ag egwyddorion y Cod. Mae pecyn cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi, yn cynnwys yr Is-Ganghellor, yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Bwrdd Llywodraethwyr. Rhoir esboniad llawn o'r broses asesu perfformiad yr Is-Ganghellor a phenderfynu a chyfiawnhau'r gydnabyddiaeth ariannol yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor 6.16 gwaith tâl canolrif staff (2022 - 5.68 gwaith), lle mae'r tâl canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail gweithwyr cyfatebol i lawn amser o ran y cyflogau a delir gan y Brifysgol a'i his-gwmnïau i'w staff.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor yn 5.73 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol canolrif y staff (2022 - 5.61 gwaith), lle mae'r tâl canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail gweithwyr cyfatebol i lawn amser o ran y cyflogau a delir gan y Brifysgol a'i his-gwmnïau i'w staff. Mae'r cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys tâl sylfaenol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Nid yw cyfrifo'r canolrif yn cynnwys staff asiantaeth nad ydynt yn gyflogeion y Brifysgol na'i his-gwmnïau. Dangosir y costau hyn dan 'Gwariant Gweithredol Arall'.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch staff eraill, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| £100,000 - £104,999 | 2 | 2 |
| £105,000 - £109,999 | 3 | 1 |
| £110,000 - £114,999 | 1 | 1 |
| £115,000 - £119,999 | - | - |
| £120,000 - £124,999 | 1 | - |
| £125,000 - £129,999 | - | - |
| £130,000 - £134,999 | - | - |
| £135,000 - £139,999 | - | 1 |
| | **7** | **5** |

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Iawndal i bersonél rheoli allweddol | **1,152,216** | **1,047,069** |

Y rheolwyr allweddol yw Tîm Gweithredol y Brifysgol sy'n cynnwys yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor, y Diprwy Is-Ganghellor – Partneriaethau, y Dirprwy Is-Ganghellor – Ymchwil, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

| Nifer cyfaratalog y staff yn ôl prif gategorïau: | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Adrannau Addysgu a Chymorth Academaidd | 234 | 203 |
| Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Canolog | 251 | 231 |
| Safleoedd | 25 | 19 |
| | **510** | **453** |

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

| | 2023 Cyfunol £'000 | 2023 Y Brifysgol £'000 | 2022 Cyfunol £'000 | 2022 Y Brifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **8 Llog a chostau cyllido eraill** | | | | |
| Llog benthyciad | 40 | 40 | 284 | 284 |
| Llog y les cyllido | - | - | 1 | 1 |
| Newid net yn y cynllun pensiwn Blwydd-dâl y Prifysgolion | 7 | 7 | 1 | 1 |
| | **47** | **47** | **286** | **286** |
| Newid net yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 360 | 360 | 532 | 532 |
| | **360** | **360** | **532** | **532** |
| | **407** | **407** | **818** | **818** |

| | 2023 Cyfunol £'000 | 2023 Y Brifysgol £'000 | 2022 Cyfunol £'000 | 2022 Y Brifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **9 Dadansoddiad gwariant gweithredol yn ôl gweithgaredd** | | | | |
| Gwariant academaidd a chysylltiedig | 11,781 | 11,456 | 7,734 | 7,397 |
| Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog | 3,803 | 3,803 | 5,351 | 5,351 |
| Safleoedd | 4,181 | 4,293 | 3,503 | 3,365 |
| Preswylfeydd, Arlwyo a Chynadleddau | 875 | 875 | 517 | 479 |
| Grantiau a Chontractau Ymchwil | 541 | 541 | 605 | 605 |
| Treuliau eraill | 918 | 741 | 533 | 203 |
| | **22,099** | **21,709** | **18,243** | **17,400** |
| **Mae'r treuliau gweithredol eraill yn cynnwys:** | | | | |
| Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilwyr allanol am wasanaethau archwilio | 150 | 120 | 74 | 57 |
| **Les rhentu gweithredol** | | | | |
| Arall | 36 | 36 | 6 | 6 |

Cofnodir ffi archwilio 2022/23 heb gynnwys TAW.

Datganwyd ffi archwilio 2021/22 yn anghywir – roedd y ffi yn £100k heb gynnwys TAW i'r Grŵp.

| | 2023 Cyfunol £'000 | 2023 Y Brifysgol £'000 | 2022 Cyfunol £'000 | 2022 Y Brifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **10 Trethiant** | | | | |
| **Cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr** | | | | |
| **Treth gyfredol** | | | | |
| Treuliau treth gyfredol | 50 | 50 | 40 | 40 |
